# 21/22



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## CRYNODEB O'N HEFFAITH

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

# CYNNWYS


Cyflwyniad **4**

Ariannu Gwasanaethau **7**

Blaenoriaeth 1 **9**

Blaenoriaeth 2 **27**

Blaenoriaeth 3 **35**

Blaenoriaeth 4 **41**

Blaenoriaeth 5 **69**

Blaenoriaeth 6 **71**



# CYFLWYNIAD

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/2022, sy'n crynhoi'r gwaith sylweddol mae fy Nhîm a minnau wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ariannol, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid allweddol i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Ar ôl ei ohirio yn 2020 yn sgil effeithiau Covid-19, dechreuodd y flwyddyn gyda thrydydd etholiad i benodi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru a Lloegr; roedd yn bleser ac yn anrhydedd gennyf gael fy ailethol gan gymunedau De Cymru i wasanaethu fel eu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am y trydydd tymor yn olynol, hyd at fis Mai 2024. Mae hyn wedi ein galluogi i barhau i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau allweddol i Dde Cymru, datblygu'r ffordd rydym yn cyflawni gwaith arloesol ymhellach a pharhau i ddarparu her iach fel 'cyfaill beirniadol' i'r Heddlu, gan sicrhau'r safonau plismona uchaf yng nghymunedau De Cymru.
Mae hyn oll wedi'i nodi a'i egluro yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu, sy'n sail i'r cynnydd a'r cyflawniadau a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae nodi fy nisgwyliadau drwy lunio Cynllun yr Heddlu a Throseddu yn un o ofynion cyfreithiol Deddf Diwygio'r Heddlu 2011 a sefydlodd rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ac mae'r un Ddeddf yn cydnabod ei bod yn hollbwysig bod y Prif Gwnstabl yn cynnal annibyniaeth weithredol.
Mae parchu cyfrifoldebau ac arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl bob amser wedi bod yn bwysig i mi, ac mae'n hollbwysig bod fy Nghynllun yn ymarferol ac yn gyflawnadwy. Felly, ers 2012, rwyf wedi cynnwys pob Prif Gwnstabl olynol wrth lunio'r Cynllun. Mae hefyd yn hanfodol bod Cynllun Cyflawni gweithredol y Prif Gwnstabl yn nodi'n benodol ei fod yn ymwneud â chyflawni Cynllun yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r Cynllun a'i flaenoriaethau hefyd yn cydnabod nad cyfrifoldebau lleol yn unig sydd gan y Prif Gwnstabl, ac nad yw chwaith yn gweithredu ar wahân.
Mae achosion o derfysgaeth, troseddau cyfundrefnol, llinellau cyffuriau, twyll ar-lein a meithrin perthynas amhriodol yn golygu bod angen i dimau plismona lleol gadw llygad ar faterion cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae Pennaeth yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol bob amser yn pwysleisio bod cyflawni rôl ei Hasiantaeth yn dibynnu ar gymorth lleol, gan gynnwys y wybodaeth a ddarperir gan Dimau Plismona yn y Gymdogaeth ledled ein cymunedau.

Mae'r Cynllun yn mynd y tu hwnt i blismona i nodi'r hyn rydym am ei gyflawni gyda'n partneriaid. Unwaith eto, mae'n ymdrech ar y cyd, ond rwy'n cymryd cyfrifoldeb am yr hyn a nodir yn y Cynllun ac am geisio gwireddu'r uchelgeisiau hynny o ran gweithio mewn partneriaeth, boed hynny'n golygu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau Diogelwch Cymunedol neu weithio o fewn pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni'r egwyddorion a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, neu'r hyn rwy'n ei wneud i gyflawni fy nghyfrifoldeb i ddwyn y System Cyfiawnder Troseddol i gyfrif a chyfrannu at weledigaeth a chamau cyflawni ymarferol ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Rwyf wedi sôn am Blismona yn y Gymdogaeth a Diogelwch Cymunedol yn benodol uchod, gan eu bod yn ategu bron popeth rydym yn ceisio

ei gyflawni i gymunedau De Cymru. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi cydnabod yn glir iawn fod y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ganolog i gadw a datblygu timau Plismona yn y Gymdogaeth. Mae sefydlogrwydd plismona mewn cymunedau lleol yn bwnc sy'n codi'n aml ar garreg y drws ac wrth siarad â chynghorwyr lleol. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd presenoldeb cyson mewn cymunedau er mwyn deall anghenion lleol, gwrando arnynt ac ymateb iddynt yn effeithiol mewn partneriaeth, a fydd, yn ei dro, yn ennyn ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Yn sgil y pandemig, ni allaf bwysleisio pwysigrwydd y dull gweithredu hwn ddigon.

Mae'n glir i'r Prif Gwnstabl a minnau fod tair nodwedd Plismona yn y Gymdogaeth y mae'n rhaid i ni barhau i'w hysgogi er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus ein model plismona yma yn Ne Cymru:

- Cyfathrebu: cyfathrebu â'r gymuned yn ogystal â gwrando arni
- Datrys Problemau: yn hytrach na datrys y problemau ein hunain, neu ddilyn y modelau gweithredol, dod o hyd i atebion a gweithio gydag eraill i rannu'r her a dod o hyd i'r atebion cywir.
- Grymuso: galluogi pobl leol i berchenogi problemau lleol a'u helpu a'u grymuso i gyflawni eu datrysiadau eu hunain – technegau datblygu cymunedol mewn egwyddor.

Drwy wneud yn siŵr bod y nodweddion hyn yn hollbresennol yn ein gwaith ym mhob cymuned a thrwy achub ar y cyfle i feithrin cydberthnasau ar lefel leol, gallwn osod y sylfeini i gryfhau'r cysylltiad rhwng Diogelwch Cymunedol a Phlismona yn y Gymdogaeth er mwyn sicrhau bod y ddau yn effeithiol. Mae hyn yn golygu bod angen i dimau Plismona a'r Cyngor gydweithio i lywio Diogelwch Cymunedol ar y cyd ar lefel leol. Mae cyni wedi cael effaith andwyol ar Plismona a Llywodraeth leol, gan arwain at dorri adnoddau ar gyfer gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Heddlu a'r Cyngor ym mhob ardal arwain Diogelwch Cymunedol ar y cyd, gan ymgysylltu â phartneriaid eraill a'r Gymuned, ac ymddengys fod ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r ffordd y mae gwaith yn mynd rhagddo erbyn hyn. Mae'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, a ffurfiwyd ar y cyd gan CLILC a Plismona yng Nghymru, a thrwy ddatblygu Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cymru a gwaith cysylltiedig Uned Atal Trais Cymru, wedi creu cyfle gwirioneddol, ac rwyf yn falch o ddweud bod yr uned hon wedi derbyn 3 blynedd o gyllid ychwanegol.

Yn fy nhrydydd tymor fel Comisiynydd, mae'r rôl mor gyffrous ag erioed – er yn heriol ac yn gymhleth – nid am ei bod yn rhoi pŵer neu statws, ond am ei bod yn rhoi'r cyfle i ddod ynghyd, darbwyllo a datblygu modelau cydweithredol i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Gyda'n gilydd, rydym yn cyflawni mwy na'r hyn rydym yn ei gyflawni ar ein pen ein hunain. Rwyf bellach wedi gweithio gyda thri Phrif Gwnstabl, ac mae pob un ohonynt wedi bod yn arweinydd ysbrydoledig. Mae tîm plismona De Cymru yn parhau i dyfu mewn nifer ac uchelgais, ac mae aelodau fy nhîm fy hun yn fy synnu'n barhaus wrth iddynt wthio'r ffiniau. Rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i dyfu a datblygu gan anelu'n uwch bob amser, ymhell i'r dyfodol.



**Y Gwir Anrh Alun Michael**


Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru



# ARIANNU GWASANAETHAU

Ein nod yw bod y gorau am ddeall ac ymateb i anghenion ein holl gymunedau ac mae ein gwaith gyda phartneriaid yn hanfodol er mwyn rhoi'r ymateb sydd ei angen ar bobl pan fydd ei angen arnynt.

Yn 2021-22 dyrannodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fwy na £12.7 miliwn o gyllid ledled De Cymru i gefnogi cymunedau diogel, hyderus a gwydn:



# CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN YR HEDDLU A THROSEDDU 2021-25

Mae'r adran hon yn nodi'r cynnydd a wnaed yn 2021-22 tuag at gyflawni blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2021-25

# BLAENORIAETH 01

**Byddwn yn gostwng ac yn atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn cadw pobl yn ddiogel ac yn hyderus yn eu cartrefi a'u cymunedau**

Mae lleihau trais wedi bod yn un o nodau allweddol y Comisiynydd ers 2012, gan ddefnyddio prosesau rhannu data â gwasanaethau iechyd i nodi ble a sut mae trais yn digwydd. Mae hyn wedi tynnu sylw at achosion o drais na roddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt, gan arwain at gamau gweithredu lleol i atal trais yn y dyfodol.

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

Mae'r Uned Atal Trais yn defnyddio dull iechyd y cyhoedd o atal trais, sy'n cynnwys ceisio deall epidemioleg trais a defnyddio'r dystiolaeth hon i ddatblygu ymyriadau â ffocws penodol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais. Drwy'r dull gweithredu hwn, mae'r Uned Trais Difrifol yn ceisio datblygu ymateb system gyfan i atal trais.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cyhoeddi ymchwil i effaith pandemig COVID-19 ar wahanol fathau o drais, gan gynnwys trais ymhlith pobl ifanc a thrais domestig. Mae ein hymchwil yn llywio gwaith yr Uned Atal Trais ac yn helpu i lywio ymrwymiad ehangach i atal trais ledled Cymru. Rydym wedi gweithredu ystod fwy amrywiol o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi helpu i gadw pobl ifanc yn Ne Cymru yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gwaith a gomisiynwyd gan yr Uned Atal Trais ac a gyflawnir yn uniongyrchol ganddi, yn ogystal â rhaglenni a roddwyd ar waith mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, fel Heddlu De Cymru.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, gwelwyd cyfradd uwch o drais yng Nghymru ar y cyfan o gymharu â Lloegr, gyda 31.8 o droseddau fesul 1,000 o bobl (31.4/1,000 yn Lloegr). O blith y pedwar heddlu yng Nghymru, De Cymru sydd â'r nifer uchaf o droseddau 'trais yn erbyn

person' a gofnodwyd yng Nghymru, a oedd yn gyfrifol am 37% o'r galw sy'n gysylltiedig â throseddau yn ardal yr heddlu (ONS, 2021a). Bu gostyngiad cyffredinol yn nifer yr achosion o droseddau trais ag anaf y rhoddwyd gwybod i Heddlu De Cymru amdanynt dros y pum mlynedd diwethaf (-5%). Ar y cyfan, dynion o dan 35 oed ac o ethnigrwydd Gwyn Prydeinig oedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr a phobl dan amheuaeth o gyflawni trais ag anaf.

Un o'n prif flaenoriaethau ar gyfer 2021-22 oedd rhoi ymyriadau sy'n atal trais yng Nghymru ar waith, eu gwerthuso a, lle bo angen, eu cynyddu. Mewn ymateb i'r lefelau presennol a chynyddol o drais ymhlith pobl ifanc yng Nghaerdydd ac Abertawe, mae'r Uned Atal Trais wedi comisiynu'r ymyriadau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol canlynol hyd yn hyn:



# TÎM ATAL TRAIS Y GIG

Mae Tîm Atal Trais y GIG yn cynnwys dau aelod o staff; Nyrs gymwysedig ac Eiriolwr sy'n cael eu goruchwylio gan y Pennaeth Diogelu (swydd a roddwyd i gefnogi'r ymyriad hwn gan y Bwrdd Iechyd). Lleolir y tîm yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, sef Adran Achosion Brys brysuraf Cymru lle sefydlwyd Canolfan Trawma Mawr yn ddiweddar.

Nod y Tîm Atal Trais yw cynyddu nifer yr achosion o 'drais ag anaf' y rhoddir gwybod i'r heddlu amdanynt, gwella ymatebion diogelu yn yr ysbyty, a chefnogi cleifion. Yn fwy penodol, mae'r tîm yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i gleifion sydd wedi dioddef trais ag anaf, gyda'r nod o ymgysylltu â chleifion anafedig tra byddant yn yr ysbyty, a'u hannog i symud i ffwrdd oddi wrth ffyrdd o fyw llawn trais drwy ymgysylltu â gwasanaethau.

At hynny, mae'r Tîm Atal Trais yn ceisio cynorthwyo cleifion i ymgysylltu â gwasanaethau cymunedol, er mwyn galluogi cymorth dilynol tymor hwy, a diwallu anghenion ehangach y claf. Y brif asiantaeth gyfeirio yw rhaglen Side-Step Gweithredu dros Blant, sef gwasanaeth ymyriadau cynnar sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 11-18 oed sydd ar fin fod ynghlwm wrth Droseddau Cyfundrefnol Difrifol. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth un i un dwys, mentora gan gyfoedion, addysg a hyfforddiant cyflogaeth. Mae'r Uned wedi comisiynu Gweithredu dros Blant i benodi gweithiwr achos ysbyty i ymateb i atgyfeiriadau gan yr Uned Atal Trais i unigolion 11-30 oed. Mae'r gweithiwr achos yn darparu ymateb cyflym i atgyfeiriadau, yn cynnig cymorth wedi'i dargedu ac yn dangos y ffordd, gan gyfeirio pobl at wasanaethau cymunedol priodol ac ymgysylltu â gwasanaethau statudol.

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, ymgysylltodd Tîm Atal Trais y GIG â 1,070 o gleifion, a chafodd 41 o bobl gymorth 1:1 dwys gan weithiwr achos Gweithredu dros Blant.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Uned Atal Trais wedi sicrhau cyllid am gyfnod o dair blynedd drwy Grant Cyfleoedd Dysgu Digymell y Swyddfa Gartref a'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid i sefydlu Tîm Atal Trais newydd (yn cynnwys nyrs gymwysedig ac eiriolwr) yn Adran Achosion Brys Treforys (Abertawe). Bydd Media Academy Cymru (MAC) yn cyflogi ymarferydd cymorth llawn amser pwrpasol i ddarparu cymorth dilynol cymunedol dwys tymor hwy i unigolion a atgyfeirir ato. Mewn ymateb i lefelau cynyddol o drais ymhlith pobl ifanc yng Nghaerdydd, mae'r cyllid ychwanegol hefyd wedi ein galluogi i ehangu'r ddarpariaeth bresennol drwy ariannu gweithiwr achos ychwanegol a gweithiwr achos iechyd meddwl pwrpasol fel rhan o dîm ysbytai Gweithredu dros Blant yng Nghaerdydd.

**1,071**

**RHWNG MIS EBRILL 2021 A MIS MAWRTH 2022, YMGYSYLLTODD TÎM ATAL TRAIS Y GIG Â 1,070 O GLEIFION...**

**41**

**A CHAFODD 41 O UNIGOLION GYMORTH 1:1 DWYS GAN WEITHIWR ACHOS GWEITHREDU DROS BLANT**

# 37

RHWNG MIS EBRILL 2021 A MIS MAWRTH 2022, MAE YMDDIRIEDOLAETH ST GILES WEDI CEFNOGI 37 O BOBL DRWY'R GWAITH HWN

## YMDDIRIEDOLAETH ST GILES

Mae Ymddiriedolaeth St Giles yn gweithio gyda phobl ifanc y nodir eu bod yn 'wyneb risg' o gyflawni trais, er mwyn eu cefnogi. Caiff ymyriadau amserol eu cyflawni gan weithiwr ymroddedig St Giles ym maes Ymyriadau Cynnar ac Atal ledled Abertawe a Phort Talbot a Chastell-nedd, a hynny ar "adeg addysgadwy", pan fydd person ifanc yn fwyaf tebygol o fanteisio ar gymorth dwys wedi'i deilwra.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn nodi cyfleoedd i gynorthwyo teuluoedd pobl ifanc sydd wedi cael eu denu i droseddu, lle y bo hynny'n briodol. Mae natur yr ymyriadau a gynigir yn amrywio, gan ddibynnu ar anghenion y cleient. Gall ymyriadau fod yn seiliedig ar weithgareddau (e.e. cymorth i fynychu apwyntiadau), a gwaith un i un pwrpasol sy'n annog pobl ifanc i ystyried dewisiadau a'r canlyniadau cysylltiedig a gwneud newidiadau cadarnhaol.

## CRIMESTOPPERS

Mae'r Uned Atal Trais wedi darparu cyllid sy'n galluogi Fearless i recriwtio gweithwyr achos pwrpasol i dargedu ardaloedd lle mae trais difrifol yn broblem yng Nghaerdydd ac Abertawe. Mae'r rolau wedi canolbwyntio ar feithrin partneriaethau ag asiantaethau allweddol ar lefel leol, gan weithio i nodi ac ymateb i gyfleoedd i gyflwyno sesiynau Fearless i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg a chymunedol. Mae'r sesiynau yn cynnwys gweithdai rhyngweithiol sy'n ymdrin â phynciau allweddol fel camfanteisio'n droseddol ar blant, rhedwyr cyffuriau a throseddau cyllyll. Mae'r gweithwyr achos hefyd yn hyfforddi gweithwyr proffesiynol i'w paratoi'n well i adnabod arwyddion a datgeliadau gan bobl ifanc ac ymateb iddynt.

# 8,500

RHWNG MIS EBRILL 2021 A MIS MAWRTH 2022, YMGYSYLLTODD TÎM FEARLESS Â 8,500 O BLANT A PHOBL IFANC

## BRAVER CHOICES

Prosiect troseddau cyllyll yw Braver Choices a ddarperir gan Media Academy Cymru (MAC). Mae wedi gweithio i sicrhau bod pobl ifanc mewn ardaloedd problemus yn Abertawe sy'n defnyddio cyllyll ac arfau bygythiol eraill, neu sy'n wynebu risg o'u defnyddio, yn derbyn ymyriad pwrpasol a chyflym, sy'n seiliedig ar gryfderau, gyda Gweithiwr Ieuenctid cymwysedig. Mae hyn yn cynnwys diogelu a chefnogi newidiadau drwy ddefnyddio dull ymddygiad gwybyddol sy'n seiliedig ar asesiad gan raglen Ymyrryd â Thrais Cerridwen a/neu AssetPlus. Yn aml, mae gan y plant a'r bobl ifanc hyn anghenion niferus a chymhleth sy'n cael eu nodi a'u datrys, gan gynnwys chydberthnasau negyddol a'u cyfoedion, tlodi, a bod yn rhan o'r system Cyfiawnder Troseddol oherwydd cyffuriau neu drais, sy'n cynyddu'r risg o gamfanteisio ar blant, anafiadau a marwolaeth.

195

RHWNG MIS EBRILL 2021 A MIS MAWRTH 2022, CEFNOGODD PROSIECT BRAVER CHOICES 195 O UNIGOLION.

## PARALLEL LIVES

Mae rhaglen Parallel Lives i blant (10-16 oed) a rhieni lle nodwyd bod trais rhwng y glasoed a rhiant/gofalwr yn y cartref, bod gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â'r teulu, a bod y ddwy ochr am wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'r Rhaglen yn gweithio ar wahân gyda phob carfan wedi'i rhannu'n grwpiau cyn dod â nhw nôl at ei gilydd i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn helpu i wella'r cyfathrebu gartref a lleihau'r gwrthdaro. Rhaglen pedair wythnos yw Parallel Lives sy'n dechrau yn dilyn gweithdy cychwynnol un diwrnod i asesu anghenion y teulu. Mae'r sesiynau yn seiliedig ar weithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar gyfathrebu, llythrennedd emosiynol, rhianta cadarnhaol, gweithrediad gwybyddol, gwrando gweithredol ac ysgrifennu creadigol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys defnyddio sêr datblygiad personol, cynnal cynadleddau wyneb yn wyneb ac ysgrifennu llythyrau at ei gilydd i ddatblygu sgiliau sy'n seiliedig ar theori y gellir eu defnyddio yn y cartref. Mae Parallel Lives yn cynnwys ymyriadau adferol ar gyfer teuluoedd sy'n profi trais rhwng y glasoed a rhiant/gofalwr ac mae wedi mabwysiadu dull amlasiantaethol holistaidd tuag at drais o'r fath.

184

RHWNG MIS EBRILL 2021 A MIS MAWRTH 2022, YMGYSYLLTODD RHAGLEN PARALLEL LIVES Â 184 O DEULUOEDD

# CYDLYNYDD ALLGYMORTH YMYRRAETH GYNNAR AC ATAL ABERTAWE, TÎM DIOGELU CYD-DESTUNOL CYNGOR ABERTAWE

Mae'r Cydlynydd Allgymorth Ymyrraeth Gynnar ac Atal, sy'n gweithio yn Nhîm Diogelu Cyd-destunol Cyngor Abertawe a Gwasanaeth Ieuenctid Evolve, yn cydlynu ac yn darparu presenoldeb gwaith ieuenctid ar wahân ac allgymorth, ochr yn ochr â mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol ar draws ardaloedd problemus a nodwyd yn Abertawe drwy:

- Ddarparu tîm ystwyth a hyblyg i weithio yn ystod y dydd, gyda'r hwyr, drwy'r nos, yn ystod yr wythnos a thros y penwythnos i ddarparu dull 'Go Low, Go Slow', gan weithio gyda phobl ifanc i ddarparu gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar ar y stryd lle mae pobl ifanc mewn perygl o drais ieuenctid, ecsbloetio troseddol, cario arfau, llinellau cyffuriau a bod yn rhan o gangiau.

- Meithrin perthnasoedd, darparu gwybodaeth, cymorth a chasglu gwybodaeth am anghenion a phrofiadau'r bobl ifanc yn ei ardal, gan lywio datblygiad gwasanaeth ymatebol a gaiff ei gyd-gynllunio gyda phartneriaid a phobl ifanc.

Mae'r Cydlynydd yn gweithio yn unol â'r fframwaith diogelu cyd-destunol lleol yn Abertawe drwy'r Panel CMET (Colli, Ecsbloetio a Masnachu Pobl); cyfarfod amlasiantaethol bob pythefnos, sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion unigol pobl ifanc sydd wedi'u nodi gan bartneriaid (gan gynnwys Heddlu De Cymru, Diogelwch Cymunedol, Troseddau Ieuenctid a sefydliadau'r trydydd sector). Mae'n darparu neu'n hwyluso mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol mewn perthynas â pheryglon fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, digartrefedd a thrais. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ardaloedd problemus a nodwyd ledled Abertawe, gan ddarparu gweithgarwch allgymorth wedi'i dargedu. Mae nifer o gyfarfodydd aml-asiantaeth, traws-sector dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi bod peryglon fel hyn wedi'u cysylltu'n agos ag ecsbloetio troseddol, pryderon ynghylch cario arfau a materion newydd sy'n dod i'r amlwg ynghylch pobl ifanc sy'n uniaethu â "bod mewn gang" yn yr ardal.

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, mae Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal Abertawe wedi ymgysylltu â 547 o bobl ifanc.

**547**

RHWNG MIS EBRILL 2021 A MIS MAWRTH 2022, MAE GWASANAETH YMYRRAETH GYNNAR AC ATAL ABERTAWE WEDI YMGYSYLLTU Â 547 O BOBL IFANC

# CYDLYNYDD YMGYSYLLTU AC YMYRRAETH GYNNAR CAERDYDD

Mae Cydlynydd Ymgysylltu ac Ymyrraeth Gynnar Caerdydd wedi gweithio mewn partneriaeth ar draws Media Academi Cymru (MAC) a thîm Cymorth Cynnar ac Atal y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i ymgysylltu'n arloesol ac yn greadigol â phobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o symud o grŵp o gyfoedion sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel i fod mewn gang sefydledig, gyda'r nod o ddatblygu ffyrdd effeithiol o weithio a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd gan yr ymchwil.

Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc ac arloeswyr cymunedol mewn amrywiaeth o ardaloedd 'problemus' lle mae trais yng Nghaerdydd i feithrin cysylltiadau uniongyrchol â chymunedau plant a phobl ifanc sydd mewn perygl oherwydd grwpiau negyddol o gymheiriaid.

Mae'r themâu a archwiliwyd drwy'r gwaith hwn wedi cynnwys trais lefel isel rhwng cymheiriaid, tiriogaetholdeb a phwysau gan gymheiriaid, yr hyn sy’n ysgogi plant a phobl ifanc yn yr ardaloedd, aflonyddwyr cymunedol fel rhan o fethodoleg diogelu cyd-destunol ehangach, ac elfen allweddol o'r prosiect yw ymgysylltu â darparwyr gofal sylfaenol, y gwasanaeth ieuenctid, addysg, grwpiau cymunedol a chymorth cynnar mewn gwasanaethau plant.

# YMYRIADAU YN Y DDALFA CYFLEOEDD DYSGU DIGYMELL Y SWYDDFA GARTREF

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Uned Atal Trais wedi sicrhau cyllid ychwanegol drwy Grant Ymyriadau Cyfleoedd Dysgu Digymell y Swyddfa Gartref, ac mae'n gweithio gyda Media Academy Cymru (MAC) i dreialu Rhaglen Ymyriadau yn y Ddalfa mewn dalfeydd heddlu ledled De Cymru sy'n ategu ac yn cefnogi gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Rhoddir yr ymyriad ar waith gan weithiwr ieuenctid sy'n defnyddio cyfweliad ysgogiadol yn seiliedig ar gryfderau yn nalfa'r heddlu. Yr ymyriad byr 40 munud hwn fydd dechrau'r gydberthynas ar gyfer gwaith ar ôl y ddalfa. Os na fydd y plentyn neu'r person ifanc yn bodloni trothwyon y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (caiff ei ryddhau dan ymchwiliad neu ni chymerir camau pellach), bydd y gweithwyr achos yn chwarae rôl flaenllaw ac yn gwneud gwaith achos uniongyrchol gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn y gymuned lle ceir risgiau cynyddol neu gais am gymorth.

Mae’r gweithiwr achos yn gweithio gyda’r plentyn neu'r person ifanc dros gyfnod o hyd at 6 mis er mwyn cynnal momentwm y daith tuag at newid, a bydd yn parhau i’w gefnogi drwy ymdrin â’i anghenion a’i ddargyfeirio oddi wrth fod yn destun atgyfeiriad statudol. Ar gyfartaledd, bydd ymyriadau yn para 2 fis.

# 297

ERS EI CHYFLWYNO YM MIS MEDI 2021, MAE'R RHAGLEN YMYRIADAU YN Y DDALFA WEDI YMGYSYLLTU Â 297 O BOBL IFANC

# YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC A'R GYMUNED

Mae llais y gymuned yn ysgogydd grymus; mae pwysigrwydd hyn yn parhau i gael ei adlewyrchu drwy'r gwaith o ddatblygu a rhedeg yr Uned Atal Trais. Rydym yn ceisio sicrhau deialog ystyrlon a rheolaidd â'r gymuned sy'n cefnogi cyfleoedd gwirioneddol i helpu i lywio gwasanaethau a phenderfyniadau a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu cyfleoedd hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth, er mwyn creu cymunedau mwy cefnogol a chadarn.

Un o'n prif flaenoriaethau ar gyfer 2021-22 oedd cyd-gynllunio ein gwaith â chymunedau a'r rheini sydd â phrofiad bywyd o drais yn Ne Cymru. Nod yr Uned Atal Trais yw cynnig ffordd i bobl, yn enwedig y sawl sydd â phrofiad bywyd o drais difrifol, gael eu clywed a dylanwadu ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw, gan lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion pobl ac sydd ar gael iddynt ar y cyfle cynharaf. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Uned Atal Trais wedi gwneud cynnydd yn y meysydd canlynol:

1

## Peer Action Collective Media Academy Cymru

Mae'r Uned Atal Trais yn cydweithio â Peer Action Collective (PAC); grŵp o ymchwilwyr cymheiriaid 16-25 oed a ariennir gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid ac a gyflogir gan ddarparwr yn y trydydd sector, sef Media Academy Cymru (MAC). Mae tîm PAC yn cynnwys 12 o ymchwilwyr cymheiriaid o bob cwr o Gymru a chydlynydd prosiect, sy'n datblygu gwaith wedi'i gydgynllunio â ffocws penodol sy'n cynnwys ac yn cymell pobl ifanc i gymryd rhan mewn trafodaethau am gymdeithas a'r cymunedau lle maent yn byw, gyda'r nod o ysbrydoli newid cadarnhaol ac atebion hirdymor i drais ymhlith pobl ifanc. Bydd aelodau o dîm PAC yn ffurfio ein 'Bwrdd Cynghori Strategaeth' newydd; gyda'r nod o gynhyrchu Strategaeth newydd ar gyfer Atal Trais Ymhlith Pobl Ifanc yng Nghymru ar y cyd.

2

## Digwyddiad Hope Collective

Tua diwedd 2021, cynhaliodd yr Uned Atal Trais a'r Peer Action Collective ddigwyddiad ar ran Hope Collective ar gyfer pobl ifanc yn Stadiwm Principality, Caerdydd. Mae Hope Collective yn fenter ar y cyd sy'n cynnwys sefydliadau blaenllaw sydd â gwerthoedd a rennir o bob cwr o'r Deyrnas Unedig, a sefydlwyd fel rhan o ymgyrch etifeddiaeth 20 mlynedd wedi marwolaeth Damilola Taylor. Daeth y digwyddiad yng Nghaerdydd â phobl ifanc o bob rhan o Gaerdydd ynghyd i drafod yr heriau a'r materion ym maes addysg a chyflogaeth o safbwynt trais ieuenctid, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ddatrysiadau. Gwnaeth Peer Action Collective lunio a hwyluso gweithdai drwy gydol y dydd, a fydd yn llywio datblygiad yr Uned yn y dyfodol.

3

## Cronfa Cymdogaeth y Gronfa Gwaddol Ieuenctid

Mae'r Comisiynydd, drwy'r Uned Atal Trais, yn llywio ac yn cefnogi gwaith Cronfa Cymdogaeth y Gronfa Gwaddol Ieuenctid, fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd lle mae trais difrifol yn broblem yng Nghaerdydd, gan ganolbwyntio ar Butetown a Grangetown a gweithio gyda phreswylwyr i gydgynllunio ffyrdd o ateb heriau penodol mewn cymunedau, yn enwedig mewn perthynas â thrais difrifol ymhlith pobl ifanc.

4

## Grŵp Llywio'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru Gyfan

Un o brif amcanion y grŵp llywio cenedlaethol hwn yw ystyried ymagwedd hawliau plant at blismona. Yn 2021, sefydlwyd is-grŵp, dan gadeiryddiaeth cynrychiolydd o'r Uned Atal Trais, gyda'r nod o:

- Ystyried sut beth y gallai fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymagwedd hawliau plant at blismona fod, yn unol â'r fframwaith hawliau plant a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a Strategaeth Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer Plismona Plant a Phobl Ifanc.
- Meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth glir o'r gweithgarwch a'r arferion da presennol ledled Cymru, a'r meysydd lle gellid cryfhau hyn.
- Sicrhau cyfranogiad pobl ifanc drwy gydol y broses.

**Bydd yr Uned Atal Trais yn parhau i gefnogi gwaith y dull hawliau plant o blismona, ar lefel leol a chenedlaethol, llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith cenedlaethol i Gymru, a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull cydweithredol a chyson o gyd-gynllunio ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ledled Cymru.**

## PARTNERIAETHAU

Mae'r Uned Atal Trais yn cefnogi strwythurau partneriaeth lleol ac yn gweithio ochr yn ochr â nhw, gan ganolbwyntio'n benodol ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyfrifoldeb strategol am waith yn ymwneud ag iechyd, addysg, diogelu a chyfathrebu, mewn perthynas ag atal trais, yn cael ei ymgorffori yn y strwythurau perthnasol, ac yn galluogi ymateb systemau cyfan i atal trais.

Cydnabyddir pwysigrwydd cynrychioli'r Uned Atal Trais yng nghyfarfodydd pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ledled De Cymru yn eang, gan alluogi partneriaid allweddol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffrydiau gwaith. Mae cynrychiolaeth yn ystod y cyfarfodydd hyn hefyd yn helpu i lywio gwaith yr Uned Atal Trais o wneud penderfyniadau strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lefel leol, drwy ddefnyddio cynhyrchion dadansoddol ac ymchwil er mwyn llywio camau gweithredu a datblygu camau ataliol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Yn ychwanegol at ein gwaith gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, mae'r Uned Atal Trais a'n partneriaid yn darparu amrywiaeth o ymyriadau a threfniadau amlasiantaethol i leihau ac atal trais, ac yn defnyddio dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth ddelio â phlant a phobl ifanc sy'n cyflawni trais/sy'n wynebu risg o wneud hynny. Mae'r Uned Atal Trais wedi  ariannu amrywiaeth o ymyriadau ar lefel sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, sy'n cynnwys ymyriadau sy'n targedu achosion sylfaenol trais ac yn cynnig cymorth yn ystod yr hyn a ystyrir yn ‘gyfle dysgu digymell’. Mae'r ymyriadau hyn yn rhan o system sydd wedi sefydlu amrywiaeth o ddulliau i dargedu trais; un dull o'r fath yw ‘Diogelu Cyd-destunol’, sy'n ystyried rôl a risgiau niwed y tu allan i'r teulu wrth ddiogelu plant a phobl ifanc, lle mae angen i weithwyr proffesiynol gymryd camau gweithredol i newid y cyd-destunau hynny.

Mewn ardaloedd problemus, mae cyfarfodydd amlasiantaethol wedi'u sefydlu, gan weithio o fewn Fframwaith Diogelu Cyd-destunol, sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion unigol pobl ifanc a nodwyd gan bartneriaid (gan gynnwys Heddlu De Cymru, Diogelwch Cymunedol, Troseddwyr Ifanc a sefydliadau o'r trydydd sector) i ddarparu, neu wella mynediad at, wasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer problemau fel camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, digartrefedd a thrais. Rhoddir pwyslais ar ardaloedd problemus a grwpiau cyfoedion hefyd i ddarparu gweithgareddau allgymorth penodol.

## GWERTHUSO

Mae'r Uned Atal Trais wedi ymrwymo i sicrhau bod gwyliadwriaeth, ymchwil a gwerthuso ynghylch trais yn sail i'r holl weithgarwch, a bod gwaith gwerthuso wedi'i ymgorffori yn ei diwylliant i sicrhau ymagwedd gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i llywio gan ddata. Mae'r Uned wedi buddsoddi adnoddau a chapasiti i ddatblygu a lledaenu tystiolaeth ac mae wedi  ymrwymo i ymgorffori ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn mentrau atal trais.

Mae cyfanswm o dri ymyriad yn cael eu gwerthuso eleni, yn ogystal â gwerthusiad system gyfan o Uned Atal Trais Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y Tîm Atal Trais yn ysbytai'r GIG, gweithiwr achos ysbytai sy'n rhan o raglen Side-Step Action for Children, a'r System Gwyliadwriaeth Trais.
Dewiswyd y rhain i'w gwerthuso oherwydd eu potensial i effeithio ar iechyd y boblogaeth ar raddfa ehangach (h.y. y System Gwyliadwriaeth Trais), neu oherwydd eu statws unigryw fel prosiect peilot arloesol lle ceir diddordeb cenedlaethol ehangach (h.y. Tîm Atal Trais y GIG).

# PATROLAU 15 MUNUD

Ar ddiwedd 2021, gweithiodd Uned Atal Trais Cymru a Heddlu De Cymru ar y cyd i weithredu Patrolau 15 Munud ar draws ardal Heddlu De Cymru. Ers ei roi ar waith ar 1 Rhagfyr, mae dros 885 o batrolau troed amlwg wedi'u cwblhau fel rhan o'r prosiect.

Mae'r peilot yn dilyn treial llwyddiannus a gynhaliwyd gan heddlu Swydd Bedford yn 2020, a oedd yn dangos gostyngiad o 44% mewn trais difrifol ar draws ardaloedd problemus a gostyngiad o 40% yn yr holl droseddau cyhoeddus yn erbyn dioddefwyr personol.

Bydd y cynllun peilot yn ne Cymru yn parhau yn 2022 a bydd gwaith dadansoddi data'n parhau er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y patrolau hyn.






# #DiogelDweud – YMGYRCH ATAL TRAIS RHYWIOL

Gwnaeth yr Uned Atal Trais bartneru â'r Ymgyrch Noson Dda Allan i gyflwyno ymgyrch sy'n mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn yr economi liw nos, gyda chefnogaeth Cymorth i Ferched Cymru.

Nod yr ymgyrch oedd annog ymatebion rhag-gymdeithasol gan wyliedyddion tuag at unigolion sy'n dangos ymddygiadau amhriodol a niweidiol yn yr economi liw nos. Yn fwy penodol, roedd yr ymgyrch yn ceisio annog ac arfogi pobl i siarad am aflonyddu rhywiol, drwy roi'r ymwybyddiaeth y mae ei hangen arnynt i nodi ymddygiadau sy'n broblematig, a'r sgiliau i herio neu ddargyfeirio oddi wrth ymddygiad troseddwyr/troseddwyr posibl mewn ffordd nad yw'n gwrthdaro a heb ddefnyddio trais.

Yn dilyn cyfnod profi, aeth yr ymgyrch yn fyw ym mis Mehefin 2021 ar draws y cyfryngau cymdeithasol a dulliau hysbysebu y tu allan i'r cartref gan gynnwys faniau digidol, hysbysfyrddau a hysbysebion ar feteri parcio. Roedd y cam hwn o'r ymgyrch yn targedu pobl ifanc 16-45 oed, a oedd yn ymwneud â'r economi liw nos ffurfiol (tafarndai, bariau, bwytai) a/neu anffurfiol (mannau agored fel traethau).

Canfu arolwg ar ôl yr ymgyrch fod 71% o'r 265 o ymatebwyr yn teimlo bod yr ymgyrch wedi helpu pobl i wybod sut i ymyrryd yn ddiogel pan roeddent yn dyst i aflonyddu rhywiol neu drais.

Ewch i wefan yr ymgyrch: **www.diogeldweud.cymru**

# MEWN PERTHYNAS AG ATAL TRAIS, MAE EIN PUM BLAENORIAETH STRATEGOL AR GYFER 2022-23 YN CYNNWYS:

## CYD-GYNHYRCHU

1

Grymuso pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i gydweithio er mwyn datblygu atebion i drais ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Rydym ar daith – yn meithrin ein sgiliau a'n gwybodaeth wrth gyd-gynhyrchu. Rydym wedi cymryd camau breision (ac wedi dysgu llawer yn 2021) ac rydym yn gobeithio adeiladu ar y dysgu hwn yn 2022, yn enwedig drwy ddatblygu ein Strategaeth newydd ar gyfer Atal Trais Ymhlith Pobl Ifanc.

## LLEIHAU ANGHYDRADDOLDEB

2

Mae trais yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb. Mae mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais a chamdriniaeth, gan gynnwys rhywiaeth, hiliaeth, anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol a chyfleoedd anghyfartal i gael gwasanaethau, addysg a chyflogaeth, yn ogystal â hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn un o flaenoriaethau allweddol Uned Atal Trais Cymru. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o fynediad anghymesur at wasanaethau, helpu i gynrychioli lleisiau'r rheini sydd wedi'i hymyleiddio, a gosod y sylfeini i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais.

## YMGYSYLLTU AG ADDYSG

3

Mae addysg yn bartner allweddol ar gyfer atal trais ymhlith pobl ifanc a gwella'r ymatebion i hyn. Yn 2022, rydym am wella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phartneriaid addysg lleol a strategol i hyrwyddo cynhwysiant, atal trais yn yr ysgol a'r tu allan iddi, a helpu i sicrhau mynediad teg at gyfleoedd sy'n gysylltiedig ag addysg.



## PARTNERIAETHAU AR GYFER ATAL

4

Er mwyn mynd i'r afael â thrais yn effeithiol, rhaid i ni weithio mewn partneriaeth i fabwysiadu dull cydweithredol ac amlasiantaethol. Fel Uned Atal Trais, rydym yn meithrin partneriaethau lleol a chenedlaethol, a gallwn gefnogi partneriaid sydd â'r adnoddau a'r wybodaeth (yn cynnwys data a thystiolaeth) i fod yn bartneriaid effeithiol wrth atal trais. Yn 2022, byddwn yn parhau i gefnogi partneriaethau atal trais, gan gynnwys paratoi partneriaethau lleol ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol sydd ar ddod.

## GWERTHUSO EIN HEFFAITH

5

Rydym am wybod yn union pa ymyriadau sy'n effeithiol wrth atal trais, a'r effaith y maent yn ei chael. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd da wrth werthuso ymdrechion atal trais lleol a chenedlaethol. Rydym am wella hyn ymhellach yn 2022, gan sicrhau bod ymyriadau atal trais yn seiliedig ar werthusiad cadarn, ac annog cyhoeddi canfyddiadau'r gwerthusiad er mwyn datblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer atal trais.



Mae gweithio mewn partneriaeth yn ffordd allweddol o alluogi tîm y Comisiynydd i gyflawni'r blaenoriaethau yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig ein bod yn gallu meithrin y cysylltiadau ar draws dirwedd partneriaeth gymhleth sy'n ein galluogi i gyfrannu at greu cymunedau mwy diogel a chefnogi dioddefwyr a phobl agored i niwed.

Dangosir ymrwymiad y Comisiynydd i weithio mewn partneriaeth drwy ei waith i ymgysylltu ag amrywiaeth o fforymau strategol a lleol, fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Cyfiawnder Troseddol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Troseddwyr Ifanc a Byrddau Cynllunio Ardal. Mae'r gynrychiolaeth hon yn ein galluogi i ymgorffori ein gwaith ar gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, dioddefwyr, troseddwyr a phobl agored i niwed yng ngwaith ein partneriaid, gan ein helpu i nodi cyfleoedd cyd-gomisiynu, er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau a datblygu gwasanaethau mwy cynaliadwy.

Mae gostwng ac atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn cadw pobl yn ddiogel ac yn hyderus yn eu cartrefi a'u cymunedau wedi parhau'n un o flaenoriaethau allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu drwy gydol 2021-22. Mae'r Comisiynydd wedi parhau i wneud cyfraniadau ariannol blynyddol at bartneriaethau diogelwch cymunedol ledled De Cymru. Mae cyfraniadau'r Comisiynydd yn hanfodol i gefnogi'r cydweithio rhwng partneriaethau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn, gan sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion lleol:

| DYRANIAD ARIANNOL FESUL ARDAL | SWM | % |
|---|---|---|
| CAERDYDD | £149,000 | **25.4%** |
| ABERTAWE | £120,500 | **20.6%** |
| RHONDDA CYNON TAF | £82,300 | **14.1%** |
| CASTELL-NEDD PORT TALBOT | £59,700 | **10.2%** |
| BRO MORGANNWG | £56,500 | **9.6%** |
| PEN-Y-BONT AR OGWR | £56,100 | **9.6%** |
| MERTHYR | £41,200 | **7.0%** |
| **CYFANSWM 2021/22** | **£565,300** | **-** |

Darperir dyraniadau cyllid eraill drwy gyfraniadau cyllideb graidd, Llwyodraeth Cymru, rhaglen Cefnogi Pobl, a chyrff cyllido eraill a arweinir gan anghenion.

Caiff pwysigrwydd cynrychiolaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng nghyfarfodydd pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ledled De Cymru ei gydnabod yn eang, gan sicrhau bod cysylltiad rhwng yr angen lleol a'r arbenigedd pwnc a gynigir gan arweinwyr polisi strategol y Comisiynydd, a bod unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar draws y dirwedd partneriaeth yn Ne Cymru yn cyd-fynd yn glir â'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu.

Felly, mae aelodau'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi mynychu cyfarfodydd Byrddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ac is-grwpiau cysylltiedig yn rheolaidd, gan gynnwys Grwpiau Datrys Problemau lleol.

Gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn yr Uned Atal Trais, mae cyfarfodydd wedi'u hwyluso â Phartneriaid Diogelwch Cymunedol er mwyn ysgogi trafodaethau am rôl y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol mewn perthynas â rhoi'r Ddyletswydd Trais Difrifol ar waith, gan nodi unrhyw gyfleoedd a heriau y gall hyn eu cyflwyno i bartneriaid.

Mae gwaith wedi'i wneud gyda phartneriaid yn Abertawe a Chaerdydd i helpu i gysoni blaenoriaethau diogelwch cymunedol a diogelu cyd-destunol ymhellach, o ystyried yr hyn sy'n gyffredin o ran y pryderon sy'n cael eu nodi a'r dulliau sydd eu hangen i ymateb i'r pryderon hyn.



# YMATEBION I YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL:




Mae pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn parhau i ddarparu ymateb cydlynol i broblemau yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei phriod gymunedau. Mae pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn darparu ymateb effeithiol ac effeithlon i'r pryderon hyn drwy ei strategaeth unigol.

Ymhlith yr enghreifftiau o ddulliau Rheoli Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Ne Cymru mae'r canlynol:

- Sefydlu grwpiau rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol canol tref mewn cymunedau lle ceir nifer o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn un ardal awdurdod lleol, gan weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau allweddol yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector preifat i nodi ac ymateb yn effeithiol i bryderon yn yr ardaloedd. Lleihaodd nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn sylweddol yn dilyn cyfres o gyfarfodydd amlasiantaethol a chamau gweithredu cydgysylltiedig gan ddefnyddio'r wybodaeth a rannwyd drwy'r fforymau hyn.
- Mewn ardal arall, mae'r tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn gweithio mewn lleoliadau penodol yn y gymuned lle mae nifer yr achosion wedi cynyddu bob mis. Arweiniodd gwaith cydweithredol effeithiol a gweithrediadau CCTV wedi'u targedu mewn ardaloedd problemus, yn ogystal â mwy o atgyfeiriadau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, at leihad amlwg yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.



# CRONFA DIOGELWCH MENYWOD YN Y NOS (ABERTAWE) Y SWYDDFA GARTREF

Yn ystod 2021-22, llwyddodd y Comisiynydd i gael dyfarniad gwerth £182,750 gan Gronfa Diogelwch Menywod yn y Nos i leihau achosion o drais yn erbyn menywod a merched mewn mannau cyhoeddus yn y nos yn Abertawe, gan gynnwys mewn mangreoedd, yn ogystal â llwybrau adref ac i adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hyn sydd fwyaf effeithiol o ran gwella diogelwch menywod yn y cyd-destun hwn. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno cynllun Mannau Diogel, darparu hyfforddiant arbenigol i staff yn y sector lletygarwch i ymdrin â materion wrth iddynt godi, ac ymgyrch Heddlu De Cymru wedi'i thargedu. Cyfeirid ato fel Ymgyrch Ferndown, a'i nod oedd targedu amseroedd penodol a phwyntiau pwysau yn yr economi liw nos, gan gasglu a dadansoddi data a deallusrwydd i lywio sut caiff adnoddau eu dyrannu yn y dyfodol a datblygu ymyriadau arbenigol y tu hwnt i'r cyfnod ariannu.

# CYNLLUNIO STRATEGOL

Mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddyletswydd i greu strategaeth tair blynedd sy'n amlinellu'r ymrwymiadau, y blaenoriaethau a'r camau gweithredu i'w cyflawni ar y cyd drwy'r strwythur partneriaeth. Mae partneriaid diogelwch cymunedol ledled y rhanbarth wrthi'n adolygu eu strategaethau. Mae tîm y Comisiynydd yn eu helpu i adolygu'r data a'r wybodaeth ategol am droseddau ac i ddiwygio eu blaengynlluniau gweithredu. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau, lle y bo'n bosibl, fod y blaenoriaethau a amlinellir mewn Strategaethau Diogelwch Cymunedol yn gyson â'r rheini yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu.

## COMISYNU

Mae monitro gweithgarwch comisiynu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i dîm y Comisiynydd. Cynhaliwyd asesiad llawn o weithgarwch comisiynu blaenorol a lluniwyd dogfen friffio lawn yn amlinellu gweithgarwch comisiynu pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Caiff ei fapio ymhellach yn erbyn ffynonellau cyllido eraill ar ben yr hyn a ddarperir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Er mwyn gwella effeithlonrwydd ein dull comisiynu, mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i ddatblygu Fframwaith Comisiynu cydgysylltiedig a fydd yn fodd i gysoni gweithgarwch comisiynu ar draws holl feysydd portffolio'r tîm.

## ADRODDIADAU BLYNYDDOL

Darperir adroddiadau blynyddol drwy'r broses gomisiynu. Bydd gwella'r broses adrodd yn flaenoriaeth i'r Swyddog Polisi a Phartneriaethau er mwyn sicrhau bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n deillio o gyfraniadau'r Comisiynydd mor llwyddiannus â phosibl.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf:**

- Cryfhau Timau Plismona yn y Gymdogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar atal ac ymyrryd yn gynnar, a gwella ein gallu i ddatrys problemau cymunedol; wrth weithio'n agosach gyda Thimau Diogelwch Cymunedol.
- Sicrhau bod blaenoriaethau diogelwch cymunedol yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth, yn cynrychioli anghenion ein cymunedau lleol, ac yn gwella gallu ein timau plismona yn y gymdogaeth a'n partneriaid i gydlynu ymateb amlasiantaethol sy'n datrys problemau.
- Meithrin dealltwriaeth well o'r ffordd y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn defnyddio data, gan gefnogi dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â diogelwch cymunedol.
- Cynnal ymarfer cwmpasu i ystyried y trefniadau diogelwch cymunedol presennol ym mhob awdurdod lleol ledled De Cymru, gan ganolbwyntio ar feysydd allweddol fel; llywodraethu, staff, adnoddau a blaenoriaethau, gan gynnwys sut / a yw'r rhain yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth.
- Adolygu ymrwymiadau cyllid presennol a'u blaenoriaethu er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflawni mwy gyda'n gilydd i sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel.
- Galluogi partneriaid i ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol a osodir ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (2021).

# BLAENORIAETH 02

**Byddwn yn cynnwys ac yn grymuso ein cymunedau, gan weithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd, tân a Llywodraeth Cymru i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl.**

Mae cwrdd â phobl, siarad â phobl, a gwrando i gyd yn bwysig wrth helpu'r Comisiynydd i ddeall materion plismona a diogelwch cymunedol sy'n effeithio ar y cyhoedd ledled De Cymru. Mae clywed gan bobl yn uniongyrchol yn galluogi'r Comisiynydd i ddwyn Heddlu De Cymru i gyfrif yn effeithiol ar ran y cyhoedd, gan sicrhau bod yr heddlu yn darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.

Roedd pandemig Covid-19 yn peri nifer o heriau o ran ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd oherwydd y gofynion cadw pellter cymdeithasol angenrheidiol i gadw cymunedau'n ddiogel.

Er i ni symud yn gyflym i addasu at hyn drwy gyflwyno a datblygu ein hymagwedd at ymgysylltu digidol, yn 2021-22 llaciwyd y cyfyngiadau ac yna roedd modd i ni ailgyflwyno rhaglen ymgysylltu wyneb yn wyneb, wedi'i chyfuno â threfniadau rhithwir newydd i ehangu ein hygyrchedd a'n cyrhaeddiad.

Amlinellir trosolwg o'r gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd gennym yn ystod y flwyddyn isod.

## AR GRWYDR YN Y GYMUNED

Roeddem yn falch o allu ailddechrau Teithiau Cerdded Cymunedol y Comisiynydd o fis Mehefin 2021. Nod Taith Gerdded Gymunedol yw i'r Comisiynydd gwrdd â thrigolion i drafod pryderon ynghylch troseddu a diogelwch cymunedol mewn ardal neilltuedig sy'n gysylltiedig â phroblemau a godwyd ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu bryderon am droseddu neu blismona lleol.

Rhwng mis Mehefin 2021 a mis Mawrth 2022, mynychodd y Comisiynydd daith gerdded yn y lleoliadau canlynol i'r dde:



**CASTELL-NEDD**




**GRANGETOWN**



**ABERTAWE**



**PORT TALBOT**



**PEN-Y-BONT AR OGWR**



**TREORCI AC YSTRAD**

Dewiswyd y lleoliadau hyn yn dilyn adborth a gawsom gan y cyhoedd ac roedd enghreifftiau o'r materion a drafodwyd â'r Comisiynydd yn ystod y teithiau cerdded yn cynnwys:

- Pryderon am faterion sy'n ymwneud ag yfed yn ystod y dydd a chamddefnyddio sylweddau yng nghanol trefi
- Mwy o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol trefi, gan effeithio ar deimlo'n ddiogel
- Roedd rhai pobl yn teimlo eu bod yn anaml yn gweld swyddog neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar batrôl yn eu cymuned ac y gallai'r Heddlu wella eu gweledEDD a'u gwaith ymgysylltu
- Rhwystredigaethau ynghylch anawsterau wrth gysylltu'n llwyddiannus â rhif 101 nad yw'n argyfwng, a oedd yn effeithio ar hyder wrth riportio digwyddiadau



# SGYRSIAU CYMUNEDOL RHITHWIR

I gyd-fynd â'i Grwydrau Cymunedol, trefnodd y Comisiynydd ymgysylltiad ar-lein â thrigolion yr ardal awdurdod lleol gysylltiedig ehangach hefyd. Mae Sgyrsiau Cymunedol Rhithwir yn rhoi cyfle i drigolion ledled De Cymru siarad yn uniongyrchol â'r Comisiynydd am ei rôl ef, eu barn nhw a'u profiadau o blismona lleol, yn ogystal â phryderon penodol ynghylch diogelwch cymunedol. Mae cynrychiolwyr o'r timau plismona lleol perthnasol hefyd yn bresennol, gan roi mewnwelediad gweithredol mewn ymateb i'r adborth a rannwyd â'r Comisiynydd.

Rhwng mis Medi 2021 a mis Mawrth 2022, cynhaliodd y Comisiynydd sgyrsiau cymunedol rhithwir â thrigolion yn ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.

Ymhlith y materion a godwyd gan drigolion yn ein Sgyrsiau Cymunedol roedd:

- Roedd pobl yn awyddus i'w timau plismona lleol ailsefydlu cyfarfodydd PACT neu gyfarfodydd ar-lein, gan eu bod yn teimlo bod diffyg cyfathrebu ac ymgysylltiad gan eu timau plismona cymdogaeth lleol
- Pryderon mewn perthynas â cheir, beiciau a sgwteri trydan yn rasio'n beryglus ar gyflymder uchel, gan achosi niwsans sŵn a pheryglu eraill
- Angen mwy o ymwybyddiaeth am y dulliau priodol o gysylltu â'r heddlu yn seiliedig ar ba mor gyflym y mae angen ymateb i'r digwyddiad, gan gynnwys hyrwyddo'r opsiwn o riportio ar-lein yn ehangach i'r cyhoedd
- Cynnydd diweddar mewn achosion o dwyll a'r ffaith nad oes gan bobl hŷn fynediad at adnoddau ar-lein yn aml, na gwybodaeth am sut i nodi'r sgamiau diweddaraf na sianeli i'w riportio
- Pryderon am gamddefnyddio sylweddau a mwyfwy o achosion o bobl yn cael eu gweld dan ddylanwad cyffuriau a/neu alcohol yn ystod y dydd.
  Roedd hyn, yn benodol, yn golygu nad oedd llawer o deuluoedd a phobl hŷn eisiau ymweld â chanol trefi
- Rhai anawsterau ac anghysondebau wrth gysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol lleol yr heddlu

Yn seiliedig ar natur y materion a drafodwyd yn ystod y Crwydrau a'r Sgyrsiau Cymunedol Rhithwir, mae'r Comisiynydd wedi cael sgyrsiau uniongyrchol â Chomanderiaid Rhanbarthol, timau plismona lleol ac asiantaethau partner i fynd i'r afael yn briodol â phob pryder a godwyd.

## SGWRS LLEISIAU IFANC

Mae menter Sgwrs Lleisiau Ifanc yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed siarad â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ei dîm a Heddlu De Cymru am faterion yn ymwneud â phlismona, troseddu a diogelwch cymunedol. Mae Sgwrs Lleisiau Ifanc wedi'i strwythuro gan ddefnyddio dull tair haen, fel y dangosir yma:

#YOUNG VOICES CONVERSATION

1

### SGYRSIAU LLEOL

**Gan weithio gyda grwpiau ieuenctid, sefydliadau, ysgolion, colegau a phrifysgolion, rydym yn cynnal sgyrsiau lleol â phobl ifanc er mwyn siarad am faterion plismona a diogelwch sy'n peri pryder iddynt**

2

### FFORWM RHANBARTHOL

**Rhoddir y cyfle i bobl ifanc gyflwyno'r materion a'r syniadau allweddol a drafodwyd yn ystod sgyrsiau lleol i'n panel, sy'n cynnwys uwch-swyddogion yr heddlu ac arweinwyr yn y sector cyhoeddus**

3

### ADBORTH GAN AELODAU'R PANEL

**Mae aelodau'r panel yn cynnal sesiwn adborth gyda Phobl ifanc er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am sut mae eu safbwyntiau yn cael eu hystyried a'r camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i'w sylwadau**

Trwy gydol 2021, buom yn gweithio gyda sefydliadau, grwpiau ieuenctid a fforymau i'n cynorthwyo i hwyluso sgyrsiau anffurfiol gyda phobl ifanc. Er mwyn ein helpu i ddeall y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc ac i wella ein dealltwriaeth o'r ffordd y gallwn ni wella'r gwasanaeth a ddarparwn iddynt yn barhaus, bu sgyrsiau lleol yn archwilio'r canlynol:

- Y materion a oedd yn peri pryder i bobl ifanc neu a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel
- Y rhesymau pam y byddai pobl ifanc yn annhebygol o riportio i'r heddlu
- Yr hyn yr oeddent yn teimlo y gallai'r heddlu ei wneud i wella perthnasoedd â phobl ifanc

Ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd ein 'Fforwm Lleisiau Ifanc', lle cyflwynwyd a thrafodwyd crynodeb o'r hyn a drafodwyd yn y sgyrsiau lleol. Gwahoddwyd grŵp bach o bobl ifanc i'r fforymau hyn i drafod yr adborth ag uwch-arweinwyr yn yr heddlu a'r sector cyhoeddus.

Ymhlith y pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn roedd:

- Diogelwch menywod a merched ifanc
- Camddefnyddio cyffuriau a sylweddau
- Stopio a chwilio
- Troseddau cyllyll
- Ysgolion ac addysg
- Riportio a rhannu gwybodaeth â'r heddlu
- Rhyngweithiadau'r heddlu â phobl ifanc

Mae trosolwg o'r pynciau a drafodwyd yn ystod 2021 wedi'i amlinellu yn ein Trosolwg o Leisiau Ifanc.

Fel ffordd o roi gwybod i bobl ifanc sut roeddem yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn ymateb iddynt, cynhaliwyd sesiynau adborth ar wahân ym mis Medi 2021 a mis Chwefror 2022, lle rhoddodd uwch-arweinwyr o Heddlu De Cymru ddiweddariadau uniongyrchol i bobl ifanc yn bersonol.

Mae'r safbwyntiau a'r awgrymiadau a rannwyd gan bobl ifanc trwy gydol y flwyddyn wedi bod yn allweddol i'n helpu i ddeall eu hanghenion penodol yn well ac maent wedi chwarae rhan hanfodol wrth lywio meysydd gwaith, gan gynnwys:

- Gweithredu amrywiaeth o fentrau sy'n anelu at helpu menywod ifanc i deimlo'n fwy diogel yn yr economi nos a mannau cyhoeddus cysylltiedig
- Llywio ymgyrch trais rhywiol ac aflonyddu '#DiogelIDdweud' Uned Atal Trais Cymru (VPU)
- Datblygu deunyddiau penodol ar gyfer pobl ifanc, i godi ymwybyddiaeth o'r opsiwn i riportio i'r heddlu trwy'r cyfryngau cymdeithasol

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc trwy ein Sgwrs Lleisiau Ifanc trwy gydol 2022-23, gan nodi'r materion sy'n bwysig iddynt a sut y gall plismona yn Ne Cymru weithio tuag at weithredu newid cadarnhaol.

# AROLWG EIN HEDDLU, EIN CYMUNED

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllideb yr heddlu a phennu lefel praesept yr heddlu yn Ne Cymru. Ym mis Tachwedd 2021, lansiodd y Comisiynydd arolwg cyhoeddus i geisio adborth gan bobl sy'n byw yn Ne Cymru am yr hyn sy'n gwneud iddynt deimlo'n anniogel, eu barn am blismona lleol a chyfraniadau y mae pobl yn eu talu am blismona drwy daliadau'r Dreth Gyngor yn 2022-23. Ymatebodd mwy na 1,500 o bobl i'r arolwg, oedd yn braf i'w weld.

Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau yr arolwg ar y dde:

"Mae gan y troseddau hyn effaith sylweddol ar y dioddefwyr, eu teuluoedd a'r gymuned

## Y PUM PRIF BRYDER MEWN CYMUNEDAU LLEOL:

**46%**
**Alcohol, Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau**


**38%**
**Goryrru a Gyrru'n Beryglus**

**38%**
**Diogelwch ar y Stryd (e.e bod ofn cerdded ar eich pen eich hun)**

**34%**
**Bwrgleriaeth a Dwyn**

**24%**
**Trosedd sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac ymddygiad gwrthgymdeit**

CANFYDDIAD Y CYHOEDD O DROSEDDAU AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL:




**Roedd 70% o'r ymatebwyr o’r farn fod troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu mewn rhyw ffordd dros y 3 blynedd diwethaf**



> Dyma'r troseddau rydw i, a’r bobl o'm cwmpas, wedi'u profi gan amlaf

> Dylai pobl fod yn ddiogel yn eu cartrefi. Yn aml, mae cam-drin sy'n cael ei ystyried yn lefel isel ond sy’n digwydd yn gyson yn gwneud bywydau pobl yn ofnadwy

## BARN Y CYHOEDD AR BLISMONA LLEOL:

# 59%

**Roedd 59% yn *cytuno* eu bod yn parchu'r heddlu**

# 51%

**Roedd 51% yn *cytuno* bod yr heddlu yn gyfeillgar a'i bod yn hawdd mynd atynt**

# 42%

**Roedd 42% yn *cytuno* bod yr heddlu'n trin pobl yn deg**


# 40%

**Roedd 40% yn *cytuno* eu bod yn ymddiried yn yr heddlu**


# 22%

**Roedd 22% yn *cytuno* bod yr heddlu yn gwneud gwaith da**

## CYFRANIADAU YNGHYLCH PRAESEPT YR HEDDLU:




**NID OEDD 55% o'r ymatebwyr yn fodlon cyfrannu mwy at eu treth gyngor i gefnogi plismona yn Ne Cymru**




**Roedd 45% o'r ymatebwyr yn FODLON cyfrannu mwy at eu treth gyngor i gefnogi plismona yn Ne Cymru**

Gwnaeth y wybodaeth a gasglwyd a'r adborth agored a gonest a rannwyd â ni gynorthwyo'r Comisiynydd i ystyried yr opsiynau ar gyfer lefel praesept 2022-23. Bydd yr adborth a gasglwyd mewn perthynas â phryderon lleol a'r gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu De Cymru yn helpu i ddatblygu gweithgaredd sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol a chyflawni gwaith o fewn y tîm.

Mae adroddiad manwl o'r ymatebion i'r arolwg yn adran '[Arolygon Cymunedol'](#) ein gwefan.

# BLAENORIAETH

# 03

**Byddwn yn gweithio i ddiogelu aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau, gan ddeall achosion a chymryd camau prydlon a chadarnhaol wrth i broblemau godi**

Yn Ne Cymru yn ystod 2021-22, cofnodwyd 34,471 o achosion o drais a cham-drin domestig a arweiniodd at 17,800 o droseddau - gyda dioddefwr benywaidd yn gysylltiedig â 23,948 ohonynt.
Mae data ar stelcio yn anoddach i'w fesur ond, yn ôl adroddiad Gwybodaeth Fusnes Heddlu De Cymru ar gyfer 2021-22, cofnodwyd 2,950 o droseddau stelcio, a menywod oedd y dioddefwyr yn achos 2,346 (79.5%) ohonynt.

Mae tîm Dioddefwyr a Bregusrwydd y Comisiynydd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod gan wasanaethau arbenigol ddigon o adnoddau a'u bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol i helpu'r rheini y mae cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt, yn ystod blwyddyn arall o ansicrwydd a heriau annisgwyl.

Rydym wedi canolbwyntio amser ac adnoddau ar ddatblygu a gwella prosesau sy'n cryfhau cyfleoedd i ddioddefwyr a goroeswyr

ymgysylltu a llywio gwaith y tîm a’n partneriaid, gan weithio gyda heddluoedd eraill Cymru i fynd i’r afael â materion sy’n ymwneud ag ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Yn gysylltiedig â'r dull hwn, roeddem yn falch o lansio'r Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr a Goroeswyr ledled De Cymru yn 2021-22

2021-22.

Yn ystod 2021-22, roeddem yn falch o sicrhau £429,000 ychwanegol o gyllid ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol i gefnogi dioddefwyr yn Ne Cymru.

Yn ogystal, gwnaethom sicrhau cyllid ychwanegol o £200,000 i fuddsoddi mewn gwasanaethau i droseddwyr ledled ardal Heddlu De Cymru.

Mae ein cyflawniadau yn erbyn ‘Mynd i’r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched: Strategaeth ar y Cyd 2019-2024’ wedi parhau i ganolbwyntio ar gydweithredu, gan gydweithio â goroeswyr a phartneriaid i wella’r ddarpariaeth.

# EIN PEDWAR MAES FFOCWS ALLWEDDOL O HYD YW:

1

**GWELL CYDWEITHIO:**
Cydweithio er mwyn cyflwyno dull system gyfan o atal trais o bob math yn erbyn menywod a merched.

2

**GWAITH ATAL AC YMYRRYD YN GYNNAR:**
Gyda phartneriaid, canolbwyntio ar effaith hirdymor penderfyniadau a gweithio i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach.

3

**DIOGELU:**
Datblygu trefniadau diogelu sy'n bodoli eisoes, gan geisio ffyrdd o amddiffyn pob dioddefwr, ble bynnag y bo.

4


**TROSEDDWYR:**
Gwella ein ffocws ar ymddygiad y troseddwr (ochr yn ochr â chefnogi dioddefwyr a goroeswyr trais a chamdriniaeth) er mwyn dwyn troseddwyr i gyfrif yn well am ganlyniadau eu gweithredoedd a chynnig cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad drwy amrywiaeth o ymyriadau.

**Er mwyn cyflawni pob un o'r blaenoriaethau plismona ond, yn arbennig, 'gweithio i ddiogelu aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau', rydym yn parhau i gyflawni'r mentrau allweddol a nodir isod.**


## DRIVE

Gan adeiladu ar y sail dystiolaeth a welwyd drwy gyhoeddi gwerthusiad Prifysgol Bryste o DRIVE, ymyriad rheoli achos cyflawnwyr niwed uchel, mae'r Comisiynydd wedi parhau i fuddsoddi yn y prosiect gan fynd ati i ehangu ei gyrhaeddiad ar yr un pryd. Mae DRIVE yn parhau i ddwyn ffrwyth, gan gynnwys dioddefwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n fwyfwy diogel, a llai o aildroseddu gan gyflawnwyr, yn bennaf am fod asiantaethau yn gallu cydweithio mewn ymyriadau cefnogol ac amharol.

Mae'r gwerthusiad tair blynedd annibynnol o DRIVE, gan Brifysgol Bryste, lle dadansoddwyd dros 500 o achosion, wedi dangos lleihad sylweddol yn y defnydd o gamdriniaeth:





**Gostyngodd cam-drin corfforol 82%**




**Gostyngodd aflonyddu a stelcio 75%**




**Gostyngodd cam-drin rhywiol 88%**




**Gostyngodd ymddygiadau cenfigennus a rheoli 73%**

Bu lleihad mewn risg hefyd yn ystod yr ymyriad mewn 82% o achosion, gyda gostyngiad o 30% yn y troseddau trais domestig a gofnodwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth DRIVE, o gymharu â dim newid ar gyfer cyflawnwyr yn y grŵp rheoli.

Yn ystod 2020-21 cytunodd y Comisiynydd i ehangu'r prosiect i'r saith ardal awdurdod lleol yn Ne Cymru, a gefnogwyd gan gais llwyddiannus am gyllid oddi wrth y Swyddfa Gartref. Drwy gyflwyno DRIVE ledled De Cymru codwyd ymwybyddiaeth o fuddiannau ymyriadau cyflawnwyr ac anogwyd mwy o gydweithio yn ein hymdrech ddiflino i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.

Heb i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen, bydd cyflawnwyr cam-drin domestig yn parhau i ddechrau perthnasau newydd, gan greu mwy o ddioddefwyr a gwneud i fwy o blant weld ymddygiad camdriniol niweidiol. Y nod yw rhoi terfyn ar y gamdriniaeth i ddioddefwyr heddiw, ond hefyd i ddioddefwyr yfory.

# 284

**o ddefnyddwyr gwasanaeth (cyflawnwyr)**

# 327

**o ddioddefwyr**

# 604

**o blant a phobl ifanc**

---




## NEWID SY'N PARA

Mae'r Comisiynydd wedi parhau i ariannu'r bartneriaeth rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a Respect er mwyn datblygu, cyflwyno a dangos newid strategol a gweithredol sylfaenol yn y ffordd y mae asiantaethau a chymunedau yn ymateb ac yn mynd ati i ddiwallu anghenion dioddefwyr pob math o drais gan ddynion yn erbyn menywod.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â chynghorwyr rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ledled De Cymru i ehangu darpariaeth Cenhadon Gofyn i Fi drwy Newid sy'n Para. Mae hyn yn golygu bod modd cyflwyno'r ddarpariaeth ymhellach a phrofi'r gallu i'w datblygu yn unol â'r angen. Yn bwysig iawn, mae hefyd yn sicrhau bod cymorth ar gael ar y cyfle cynharaf drwy ddarparu gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma ac wedi'u harwain gan anghenion i ddioddefwyr, ac y gellir ymyrryd â chyflawnwyr ar y cyfle cynharaf. Mae'r dull hwn, sy'n seiliedig ar gryfderau ac a arweinir gan anghenion, yn codi ymwybyddiaeth ac yn grymuso goroeswyr a chymunedau i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig a'u plant i feithrin gwydnwch a dod yn annibynnol. Mae Newid sy'n Para yn gweithredu mewn pedwar maes penodol:

1. **Cenhadon Cymunedol – Gofyn i Fi**
2. **Gweithwyr Proffesiynol Dibynadwy**
3. **Gwasanaethau Cymorth Arbenigol (elfen Goroeswr)**
4. **Gwasanaethau arbenigol (elfen cyflawnwyr)**

Mae cyfanswm o 2,241 o unigolion wedi cael budd o ddull Newid sy'n Para.

## YMYRIADAU TEULUOL

Mae'r gwaith yn parhau yn y maes hwn i ymyrryd cyn gynted â phosibl a chefnogi newid hirdymor mewn ymddygiad cyflawnwyr. Y nod yw cefnogi teuluoedd, lle bo hynny'n ddiogel, drwy eu galluogi i gydweithio i leihau'r risg o niwed i blant a dioddefwyr sy'n oedolion. Mae hyn yn cydnabod natur gymhleth cam-drin domestig ac effaith rheolaeth drwy orfodaeth, lle mae'r dioddefwr yn aml yn gyfrifol am gadw plant yn ddiogel, heb hyd yn oed sgwrs â'r cyflawnwr, nac unrhyw ffocws ar y cyflawnwr yn gwneud newidiadau. Mae'r ymyriad yn canolbwyntio ar deuluoedd sy'n wynebu cam-drin domestig ond sydd am barhau i fyw gyda'i gilydd. Mae'n rhoi'r cyfle iddynt gael cymorth, a lle bo angen, y cyfle i wahanu'n ddiogel ac yn gyfeillgar. Mae'r rhaglen hon bellach yn cael ei hariannu'n llawn gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru.

## CYFANSWM NIFER Y BUDDIOLWYR 2021-22:

53 O DEULUOEDD

53 o ddioddefwyr

53 o gyflawnwyr

129 o blant cysylltiedig

## FAINT O BOBL GAFODD GYMORTH PARHAUS 2021-22:

27 O DEULUOEDD

27 o ddioddefwyr

27 o gyflawnwyr

68 o blant cysylltiedig

## PROSIECT SWAN – 'SUPPORT WELLBEING ADVOCACY ENABLEMENT'

Mae'r prosiect arloesol hwn yn cefnogi pobl sydd wedi cael profiadau o waith rhyw, rhyw fel goroeswr a/neu gamfanteisio rhywiol yn Abertawe. Mae'n darparu cymorth ymarferol ac emosiynol ac yn anelu at wella diogelwch a llesiant menywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae cyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ariannu'r gwaith hwn am flwyddyn arall, gyda chymorth yn cael ei ddarparu mewn ffyrdd gwahanol:

- Gwasanaethau eirioli a chymorth mewn argyfwng yn ystod y dydd i fenywod sydd wedi profi camfanteisio rhywiol
- Gwasanaeth allgymorth gyda'r nos, bedair noson yr wythnos i fenywod sydd wedi profi camfanteisio rhywiol ar y stryd sy'n wynebu risg uchel
- Ymweliadau bob pythefnos â pharlyrau rhyw a galwadau ffôn wythnosol i fenywod
- Monitro gwaith rhyw ar-lein lleol drwy Adult Works a Viva Street. Cymorth ar gael ar gais i fenywod
- Cymryd rhan mewn cyfarfod amlasiantaethol gan sicrhau dull partneriaeth

## IECHYD MEDDWL

Mae Concordat Gofal Mewn argyfwng Iechyd Meddwl Cymru yn canolbwyntio ar atal pobl rhag cyrraedd pwynt argyfwng yn y lle cyntaf a sicrhau, pan fo pobl mewn argyfwng, eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau priodol sy'n diwallu eu hanghenion yn hawdd ac yn gyflym, gan gynnwys lloches a chaffis argyfwng.

Mae sefydlu grwpiau amlasiantaethol rhanbarthol Concordat Gofal Mewn Argyfwng ym mhob un o'n tair ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol (Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Bae Abertawe) y llynedd wedi annog gweithio amlasiantaethol mwy effeithiol ar gyfer pobl â salwch meddwl a/neu anabledd dysgu sy'n dod ar draws asiantaethau Cyfiawnder Troseddol.

Mae mesurau gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu rhwng y GIG, awdurdodau lleol, yr heddlu a'r trydydd sector yn allweddol i ymgorffori nodau'r Concordat a chefnogi pobl mewn argyfwng, neu sy'n wynebu risg o argyfwng. Y grwpiau rhanbarthol sydd wrth y llyw o ran cyflawni newidiadau a gwelliannau lleol a rhanbarthol, gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael gan asiantaethau gwahanol, yn ogystal â safbwyntiau'r rhai sydd â phrofiad o salwch meddwl a/neu anableddau dysgu pan fyddant wedi dod i gysylltiad ag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol.

Mae'r tri grŵp rhanbarthol yn atebol i Grŵp Sicrwydd y Concordat Gofal Mewn Argyfwng ac, yn y pen draw, Fwrdd Cyflawni a Goruchwylio Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru.

# BLAENORIAETH

# 04

**Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol leol mor effeithlon ac effeithiol â phosibl er mwyn diwallu anghenion dioddefwyr a gostwng lefelau aildroseddu**

Yn ystod 2021-22, lluniwyd Strategaeth Dioddefwyr a Thystion ar y cyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ymgynghorwyd arni ac fe gafodd ei chyhoeddi; Roedd y strategaeth bwysig hon yn cyfuno gweithgareddau ac yn sicrhau yr ymatebwyd i anghenion dioddefwyr, gan ganolbwyntio ar sut yr oeddem yn mynd i ymateb i ddioddefwyr a rhoi'r cymorth oedd ei angen arnynt pan oedd ei angen.

Bydd pecyn i ddioddefwyr yn cael ei gyhoeddi yn 2022-23, sy'n cael ei gwblhau adeg yr adroddiad hwn, i ategu'r strategaeth.



Mae'r Gwasanaethau i Ddioddefwyr a ariennir gan y Comisiynydd wedi parhau i helpu dioddefwyr i ymdopi a dod dros effeithiau trosedd, a sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol yn rhoi eu hanghenion gyntaf. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi grant blynyddol i bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan ei alluogi i benderfynu ar y ffordd orau o gomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dioddefwyr yn lleol. 'Ffocws Dioddefwyr' De Cymru, a ddarperir gan Cymorth i Ddioddefwyr, yw ein gwasanaeth craidd i ddioddefwyr sy'n darparu cymorth a chefnogaeth gyfrinachol am ddim, a arweinir gan anghenion, i unrhyw un y mae trosedd wedi effeithio arnynt.

Rhoddwyd cyllid ychwanegol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu drwy broses o gyflwyno ceisiadau yn ystod 2021-22, oedd wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae anghenion Dioddefwyr Troseddau yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu De Cymru:

- Mae angen i'r System Cyfiawnder Troseddol roi pwyslais clir ar wella canlyniadau i ddioddefwyr troseddau
- Sicrhau bod llais dioddefwyr i'w glywed wrth ddarparu gwasanaethau
- Cynyddu'r defnydd o Ddulliau Adferol er mwyn sicrhau bod llais dioddefwyr yn cael ei glywed

## PARATOI AR GYFER COD YMARFER I DDIODDEFWYR

**– Cydymffurfio â'r Cod i Ddioddefwyr**

Mae fframwaith cydymffurfio'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau bellach ar waith ac mae'r gwaith o fireinio'r fframwaith wedi'i gwblhau. Arweiniodd Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent ymarfer peilot (Cam 1) i brofi'r model hwn, gan roi adborth ar y cyfleoedd, y rhwystrau a'r argymhellion ychwanegol i bob heddlu arall â diddordeb mewn defnyddio'r model hwn.

Yn ystod 2022-23, mabwysiadir y fframwaith cydymffurfio gan bob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru a bydd dangosfwrdd data wedi'i sefydlu.

## GWASANAETHAU I DDIODDEFWYR WEDI'U HARIANNU GAN GRANT ODDI WRTH Y WEINYDDIAETH GYFIAWNDER

Daw cyllid i gefnogi'r Comisiynydd i ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr ledled De Cymru drwy grant craidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cafodd cyfanswm o £1,555,020 ei ddosbarthu i ddarparwyr gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr a thystion troseddau.

Yn ogystal â grant craidd gwasanaethau i ddioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder, cafwyd cyllid ychwanegol hefyd yn benodol i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol, gyda chynnydd o £318,847 yn y grant craidd i ddioddefwyr ar gyfer Cam-drin domestig a £109,827 ar gyfer trais rhywiol. Cynhaliwyd proses agored a thryloyw ar gyfer ceisiadau am gyllid drwy gwblhau asesiad o anghenion ar-lein a arweiniodd at geisiadau gan 18 o sefydliadau y gwnaeth y tîm Dioddefwyr a Bod yn Agored i Niwed graffu arnynt, gydag argymhellion o ran cyllid yn cael eu cyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Hefyd, darparwyd cyllid pellach drwy ddatgan diddordeb, er mwyn cynyddu nifer y Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) ledled De Cymru am gyfnod o ddwy flynedd. Cynhaliwyd ymarfer mapio a chyflwynwyd y datganiad o ddiddordeb i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd pob agwedd ar ein cais yn llwyddiannus, gan arwain at ddyfarnu cyfanswm o £846,000 i Dde Cymru.

## CYNGHORWYR ANNIBYNNOL AR DRAIS DOMESTIG (IDVA)

Yn ystod 2021-22 sicrhaodd y tîm gyllid ychwanegol i wella gwasanaethau eirioli (gan gynnwys mewn lleoliadau iechyd) a chymorth yn y llys i ddioddefwyr sy'n oedolion ac i sefydlu gwasanaethau i ddioddefwyr gwrywaidd a phlant a phobl ifanc.

Mae'r Comisiynydd wedi cefnogi darpariaeth ehangach o ran IDVA ledled De Cymru, drwy gydgomisiynu â sawl sefydliad. Am yr ail flwyddyn rydym wedi parhau i gomisiynu mewn partneriaeth ag Atal-Y-Fro, Cyngor Caerdydd, Cyngor Abertawe, Merthyr Tudful Ddiogelach a Llwybrau Newydd; mae hyn yn sicrhau darpariaeth ledled ein cymunedau, gan gynnwys yn y llysoedd ym Merthyr Tudful a darpariaeth benodol ar gyfer Cynghorwyr Trais Domestig a Rhywiol Annibynnol (IDSVA) i ddynion yng Nghaerdydd.

Mae'r IDVAs yn cynnig gwasanaeth eirioli arbenigol i ddioddefwyr sy'n defnyddio'r Llys Trais Domestig Arbenigol wythnosol (SDVC), gan weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gofal Tystion, y Gwasanaeth i Dystion, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a chydweithwyr yn yr Heddlu. Cynrychiolir y rôl hon yng nghyfarfodydd Grŵp Gweithredol SDVC sy'n monitro canlyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron, data perfformiad yr Heddlu a gofynion.

## CYNGHORWYR ANNIBYNNOL AR DRAIS RHYWIOL (ISVA)

Drwy'r cyllid ychwanegol, bu modd cynyddu nifer y Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol i blant a phobl ifanc yn 2021-22.

Gweithwyr cymorth arbenigol yw Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, a all gynnig cymorth a chefnogaeth i ddioddefwyr yn ystod yr wythnosau a'r misoedd yn dilyn ymosodiad. Rôl y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol yw rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i ddioddefwyr troseddau rhywiol diweddar a hanesyddol. Bydd yn rhoi cyngor diduedd i'r dioddefwr ar yr holl opsiynau sydd ar gael iddo, er mwyn galluogi'r cleient i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Cefnogir y cleient drwy gydol y broses Cyfiawnder Troseddol a thu hwnt.

Os oes angen, gall helpu drwy gydol y broses yn y llys o'r dechrau i'r diwedd, ac rydym yn gweithio gyda'n partneriaid Cyfiawnder Troseddol i gryfhau'r cymorth hwn.

Bydd y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleient am ddatblygiadau ac yn cysylltu ag asiantaethau eraill ar ran y cleient. Bydd yn eirioli dros y cleient er mwyn sicrhau bod y broses yn canolbwyntio ar y cleient a'i fod yn cael yr ymateb amlasiantaethol gorau posibl. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol yn gweithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwasanaethau Iechyd Meddwl, meddygon teulu, gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol– yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn.

# FFOCWS DIODDEFWYR DE CYMRU

Mae'r Comisiynydd yn ariannu gwasanaethau i dystion a dioddefwyr troseddau yn Ne Cymru, gyda Cymorth i Ddioddefwyr yn darparu'r gwasanaeth pwrpasol lleol, sef Ffocws Dioddefwyr De Cymru, sy'n cefnogi cynlluniau uchelgeisiol y Comisiynydd i barhau i ddiwallu anghenion dioddefwyr a thystion troseddau mewn cymunedau ledled de Cymru. Yn ystod 2021-22, gwnaed 19,417 o atgyfeiriadau newydd at y gwasanaeth a rhoddwyd cymorth i 20,210 o ddioddefwyr (parhaodd rhai o'r dioddefwyr hyn i dderbyn cymorth yn ystod y flwyddyn ariannol hon, er i'r atgyfeiriad gael ei wneud yn y flwyddyn ariannol flaenorol).

O'r rhain, gwnaed 6,032 o atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth arbenigol ac, o ganlyniad i'w rhyngweithio â Ffocws Dioddefwyr De Cymru, dynododd 2,437 o ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod wedi gallu ymadfer ac ymdopi'n well ag agweddau ar fywyd pob dydd.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag asiantaethau partner mewn cymunedau ledled De Cymru ac yn helpu i annog gwaith partneriaeth agosach a rhannu gwybodaeth mewn ffordd syml am achosion er mwyn darparu gwasanaeth cyfannol i ddioddefwyr yn Ne Cymru. Mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i gynyddu
sydd, yn rhannol, oherwydd graddau'r ymgysylltu gan staff a gwirfoddolwyr
Ffocws Dioddefwyr De Cymru, ledled cymunedau ag asiantaethau partner, yr heddlu a thimau amlddisgyblaethol.

**19,417**

**o atgyfeiriadau newydd**

**20,210**

**o ddioddefwyr**

**6,032**

**o atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth**

**1,800**

**o ddefnyddwyr gwasanaethau**



# CWNSELA YM MAES CAM-DRIN PLANT YN RHYWIOL

Mae'r Comisiynydd yn ariannu dull cyfannol i gwnsela dioddefwyr Cam-drin Plant yn Rhywiol yma yn Ne Cymru, a ddarperir gan Llwybrau Newydd drwy wasanaeth dwy haen:

- **Therapi Plant:** Mae cwnselwyr plant yn cwnsela plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin rhywiol a chamfanteisio rhywiol. Defnyddir dulliau cwnsela gwahanol gan gynnwys celf, cerddoriaeth, drama a therapi chwarae. Maent hefyd yn cefnogi ac yn cynghori rhieni a gofalwyr y mae'r hyn sydd wedi digwydd i'w hanwyliaid wedi cael effaith anuniongyrchol arnynt.
- **Cwnsela Oedolion:** Mae cwnselwyr yn daparu gwasanaeth cwnsela arbenigol i unrhyw un sydd wedi profi unrhyw fath o drais rhywiol. Darperir therapi cyn treial i gleientiaid sydd angen cael eu cwnsela, sydd hefyd ynghlwm wrth y broses Cyfiawnder Troseddol. Mae'r fath gwnsela yn sicrhau bod cleientiaid yn gallu cael cymorth ychwanegol yn ystod y broses Cyfiawnder Troseddol, heb achosi anawsterau o ran tystiolaeth.

Yn ystod 2021-22 cafodd 5,278 o bobl fudd o'r grant, drwy 1,775 o atgyfeiriadau.

**5,278**

**Cafodd 5,278 o bobl fudd o'r grant**

**drwy**

**1,775**

**o atgyfeiriadau**

## Safleoedd Tystiolaeth o Bell

Cytunwyd ar gyfrifoldebau'r Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol, Heddlu De Cymru, Uned Gofal Tystion Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth a HMCTS, a chafodd Protocol Safleoedd o Bell ar gyfer De Cymru, a phroses Tystiolaeth o Gartref, eu datblygu a'u cymeradwyo ar y cyd.

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

Mae 13 o safleoedd tystiolaeth o bell wedi'u lleoli ledled Cymru, sydd â'r nod o gynnig lle amgen diogel i ddarparu tystiolaeth, yn lle rhoi tystiolaeth yn y llys. Wrth lacio'r cyfyngiadau COVID-19, bydd mwy o gyfleoedd i ddioddefwyr ddefnyddio’r dull hwn.

## NIWED AR-LEIN

Mae gwaith wedi dechrau i baratoi ar gyfer ymarfer cwmpasu, gyda'r nod o gynnal dadansoddiad dyfnach o niwed ar-lein yn ystod COVID-19, yn benodol o ran camfanteisio rhywiol ar-lein a'r ymateb amlasiantaethol i hyn. Mae deall ac ymateb i faterion sy'n ymwneud â chamfanteisio ar blant yn ehangach o safbwynt partneriaeth wrth wraidd blaenoriaethau'r tîm Dioddefwyr a Bod yn Agored i Niwed drwy gydol 2021.

## CYFIAWNDER TROSEDDOL

Mae gwaith Cyfiawnder Troseddol yn cynnwys amrywiaeth eang o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau oedolion, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol lleol yn diwallu anghenion dioddefwyr ac yn gostwng lefelau aildroseddu ledled De Cymru. Mae hyn wedi helpu i gryfhau'r cysylltiadau â Diogelwch Cymunedol er mwyn sicrhau blaenoriaethau sy'n mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau ymddygiadau troseddol sy'n effeithio ar gymunedau ar y cyd.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nifer o gyfrifoldebau allweddol, sy'n cynnwys:

- Gweithio gyda phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i gyflawni blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu a chynnal y cyfrifoldeb statudol i sicrhau system Cyfiawnder Troseddol effeithlon ac effeithiol.
- Nodi a chynnig atebion strategol i faterion Cyfiawnder Troseddol a risgiau lleol, gan gynnwys rhoi strategaethau, polisïau a gwaith datblygu newydd sy'n gysylltiedig â Chyfiawnder Troseddol ar waith.
- Cynnal llywodraethu effeithiol drwy strwythur y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol,

sicrhau y caiff cyd-gadeiryddion Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phennaeth Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf ar hyn o bryd) a Chadeiryddion yr is-grwpiau eu cefnogi.

- Rheoli contractau a grantiau ar gyfer cyflawni prosiectau a rhaglenni Cyfiawnder Troseddol y Comisiynydd

- Monitro perfformiad o ran troseddwyr ifanc a sicrhau bod y gyllideb – y mae'r Comisiynydd yn gwneud cyfraniad sylweddol ati – yn cael ei gwario'n effeithiol.

- Cynnal cydberthnasau cryf a chyson â chydweithwyr yn Heddlu De Cymru a phartneriaid er mwyn sicrhau dull cydlynol o fynd i'r afael â throseddu ac aildroseddu ledled ardal Heddlu De Cymru, a nodi cyfleoedd i gydweithio ar ymyriadau newydd.

- Sicrhau y cynhelir cysylltiadau effeithiol â chydweithwyr ym mhob rhan o dîm y Comisiynydd er mwyn galluogi dull cydlynol a chydgysylltiedig o ymdrin â datblygiadau polisi a strategol o fewn y dirwedd Cyfiawnder Troseddol.

# GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID

Mae cyfraniad y Comisiynydd at Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid wedi helpu'r Partneriaethau i ddarparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal, gweithgareddau dargyfeirio, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau ieuenctid. Cawsant y cyfraniadau canlynol tuag at wasanaethau:

| GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID | DYRANNU | Manylion |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Abertawe | £63,100 | - |
| Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Castell-nedd Port Talbot | £35,800 | - |
| Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr | £31,900 | - |
| Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Caerdydd | £78,700 | - |
| Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Cwm Taf | £99,300 | **RCT £64,400, Merthyr £34,900** |
| Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Bro Morgannwg | £23,200 | - |
| **CYFANSWM 2021/22** | **£332,000** | |

**Nodir isod y defnydd a wnaed o'r cyllid fesul ardal y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid:**

### GWASANAETH TROSEDDWYR IFANC ABERTAWE:

Yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth yn gyffredinol, mae hyn yn ariannu gweithiwr camddefnyddio sylweddau drwy BAROD, gan gymryd dull gweithredu sy'n lleihau niwed drwy asesu a darparu ymyriadau i bobl ifanc sy'n rhan o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

### GWASANAETH TROSEDDWYR IFANC CASTELL-NEDD PORT TALBOT:

Fe'i defnyddir i gefnogi'r gweithiwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sy'n gweithio gyda phobl ifanc ar hyn o bryd ar raglenni ymyrraeth a chymorth ymarferol sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer mechnïaeth gwirfoddol wrth arestio unigolion, Mechnïaeth ddilynol, a Mechnïaeth Goruchwylio ac Arolygu Dwys, neu unigolion sydd wedi cael eu remandio ar ôl y Llys. Mae cymorth yn ystod y camau cynnar hyn yn hanfodol er mwyn chwalu rhwystrau sy'n codi pan fydd person ifanc yn destun mechnïaeth yr Heddlu/y Llys ac yn ceisio cael gafael ar wasanaethau.

**GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID PEN-Y-BONT AR OGWR:**

Mae'r cyllid hwn yn cynnwys rôl gweithiwr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ym Mhen-y-bont ar Ogwr i atal a lleihau'r risg o aildroseddu, cryfhau ymyriadau ac atal pobl ifanc rhag ymgymryd â gweithgaredd troseddol. Hefyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae sefydliadau wedi cael eu cynorthwyo i helpu cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl ifanc ac ymdrin ag ymddygiad sy'n arwain at ymddygiad troseddol, sy'n gysylltiedig â llesiant emosiynol ac iechyd meddwl.

**GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID CAERDYDD:**

Rhoddir cyllid tuag at ddarparu gweithiwr camddefnyddio sylweddau i ymgysylltu â phobl ifanc sy'n agored i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sy'n nodi bod ganddynt broblem gyda chamddefnyddio sylweddau neu bryder yn ei gylch, yn enwedig lle mae hyn yn gysylltiedig â throseddu, neu risgiau o droseddu. Yn ogystal â hyn, mae Caerdydd yn rhedeg 'CymerwchOfal' Caerdydd a ddarperir ar y cyd gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd a Heddlu De Cymru. Mae rhagor o fanylion ynghylch CymerwchOfal wedi'u cynnwys yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID CWM TAF:**

Yn Rhondda Cynon Taf (RCT), mae prosiectau a ariennir yn cynnwys rhaglenni camddefnyddio sylweddau sy'n gweithio gyda BAROD i asesu a darparu ymyriadau i bobl ifanc o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae RCT hefyd yn cynnal rhaglen atal lle sicrheir bod cysylltiadau gweithredol cryf yn cael eu cynnal â phartneriaid y mae eu gwaith yn effeithio ar blant yn y maes atal ac ymyrraeth gynnar, fel Timau Diogelwch Cymunedol a phrosiectau a ariennir gan Teuluoedd yn Gyntaf.

**GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID BRO MORGANNWG:**

Mae cyllid yn cyfrannu at ddarparu gweithgareddau / rhaglenni / modiwlau atal a gwblheir gan bobl ifanc gyda'r nod o gynyddu eu dealltwriaeth o empathi dioddefwyr ac effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Mae pobl ifanc hefyd yn dysgu am ddiogelwch tân, ymwybyddiaeth o gyllyll, hunanfyfyrio ac ystyried safbwyntiau.

Mae'r Arweinydd Strategol dros Gyfiawnder Troseddol yn monitro cyfraniad Comisiynwyr at gyflawni cyfiawnder ieuenctid trwy gynrychiolaeth ar Fyrddau Rheoli Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, gan graffu ar berfformiad a sicrhau bod y gyllideb y mae'r Comisiynydd yn gwneud cyfraniad sylweddol ati yn cael ei gwario'n effeithiol.

Mae pob Bwrdd Rheoli yn chwarae rôl allweddol yn arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol a llywodraethu tîm troseddau ieuenctid, gan sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni i blant a phobl ifanc. Fel rhan o'r Bwrdd Rheoli, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn dwyn y Tîm Troseddau Ieuenctid i gyfrif i sicrhau ei fod yn cyflawni prif nod y system cyfiawnder ieuenctid, fel y nodir yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998, sef atal troseddu gan blant a phobl ifanc.

## CYMERWCH OFAL

Wedi'i ariannu gan y Comisiynydd drwy gyfraniadau Troseddau Ieuenctid, mae Cymerwch Ofal yn brosiect ar y cyd rhwng Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc Caerdydd a Heddlu De Cymru. Ei nod yw lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelu plant, lleihau nifer y bobl sy'n dod yn rhan o'r system Cyfiawnder Troseddol am y tro cyntaf, datblygu economi liw nos ddiogel a bywiog, helpu pobl a chymunedau i deimlo'n ddiogel, a lleihau'r defnydd niweidiol o alcohol  a chyffuriau anghyfreithlon. Mae'r tîm yn gweithio yng nghanol y ddinas (bob dydd Sadwrn rhwng 3pm a 9pm) ac mewn mannau lle ceir problemau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled y ddinas, fel y'u nodir gan yr Heddlu. Yn ystod 2021-22 ymgysylltodd staff Cymerwch Ofal â 1,184 o bobl ifanc (667 o fachgen a 517 o ferched) ac roeddent yn rhan o Ymgyrch Bang Noson Calan Gaeaf ac ymgyrchoedd a sefydlwyd mewn ymateb i adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol a digwyddiadau treisgar.  Symudir tuag at ymyriadau sy'n canolbwyntio'n fwy ar y gymuned yn ystod 2022-23 ynghyd â datblygu cysylltiadau agosach â thimau pobl ar goll a chamfanteisio ThinkSafe.

## CAMU I'R CAMPAU

Mae Camu i'r Campau yn brosiect arloesol a ddatblygwyd rhwng Chwaraeon Met Caerdydd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Nod y prosiect yw gwella hyder, cymhelliant, ac iechyd corfforol a meddyliol pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder, neu sy'n wynebu risg o hynny, drwy ddefnyddio byd y campau i hyrwyddo cyfleoedd a fydd yn arwain at newid ymddygiad hirdymor.

Cydnabuwyd ers cryn amser y gall chwaraeon fod o fudd hirdymor i blant a phobl ifanc difreintiedig, ynghyd â'r cymunedau lle maent yn byw yn fwy cyffredinol. Profwyd bod darpariaeth chwaraeon lleol a hygyrch, sydd wedi'i dylunio'n dda, yn ennyn hyder pobl ifanc, yn eu gwneud yn fwy cymwys, ac yn eu cysylltu â'u cymuned leol. Yn ogystal â'r holl fuddiannau o ran iechyd a llesiant sy'n gysylltiedig â chwaraeon, sydd hefyd yn mynd i'r afael â'r risg o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac yn eu hatal, gall chwaraeon, pan gaiff ei ddylunio a'i gyflwyno'n effeithiol, helpu pobl ifanc i feithrin eu sgiliau cyflogadwyedd drwy gael hyfforddiant lleol.


Mae llwybr atgyfeirio wedi'i sefydlu gan ddefnyddio clybiau amrywiol sy'n cael budd o'r adnoddau a'r profiad er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc mewn sesiynau pwrpasol 6-10 wythnos a fydd yn anelu at ddatblygu sgiliau a gwella iechyd corfforol, yn ogystal â gweithio i

wella hunanhyder a chymhelliant. Mae clybiau wedi cael eu dewis a'u hyfforddi'n ofalus i sicrhau bod ganddynt y gallu i feithrin perthnasoedd go iawn gyda'r bobl ifanc, gan hyrwyddo newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad a fydd yn arwain at ymgysylltiad hirdymor mewn chwaraeon. Yn dilyn y sesiynau pwrpasol, bydd y bobl ifanc yn cael eu cefnogi i sicrhau presenoldeb gan Weithwyr Ieuenctid Caerdydd. Yn y tymor hir, bydd pobl ifanc yn cael cyfleoedd i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth trwy'r rhaglen hon. Mae campfa Hangar MMA yn cynnig prentisiaethau hyfforddi personol gyda phrofiad ymarferol yn y gampfa, yn ogystal â chymwysterau hyfforddi lefel un a dau sy'n cael eu cynnig ym mhob un o'r pedair camp.

Trwy gydol y prosiect, bydd pobl ifanc yn cael eu gwahodd i gwblhau oriau gwneud iawn yn y clwb y maent yn ymwneud ag ef.

Ers iddi gael ei lansio ym mis Mai 2021, mae rhaglen Step into Sport wedi mynd o nerth i nerth. Hyd yma, mae wedi rhoi cyfle i 54 o bobl ifanc o bob cwr o Gaerdydd gymryd rhan mewn chwaraeon fel MMA, bocsio a CrossFit, lle mae 918 awr o ymarfer corff wedi'u cwblhau, a phob un â chanlyniadau cadarnhaol iawn. O'r cyfanswm cyffredinol, mae'r prosiect wedi ymgysylltu â 6 merch ifanc, y mae'n anoddach eu cyrraedd yn draddodiadol, ac mae pob un ohonynt yn mynychu sesiynau MMA yn rheolaidd fel ffordd o wella nid yn unig eu sgiliau a'u lefelau ffitrwydd, ond hefyd eu hyder a'u hunan-barch.

Ar hyn o bryd, mae partneriaid atgyfeirio yn amrywio rhwng Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Gweithredu dros Blant a nifer o adrannau o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd, lle gall pobl ifanc gael mynediad at fentora a chymorth ochr yn ochr â'r sesiynau chwaraeon; mae hwn yn gyfuniad pwerus sy'n anelu at gael effaith barhaol ar fywydau'r bobl ifanc ymhell i'r dyfodol.




# RHAGLEN FRAENARU I FENYWOD A'R GWASANAETH YMYRRYD YN GYNNAR I BOBL 18-25 OED

Mae'r Rhaglen Fraenaru i Fenywod wedi bod yn ymrwymedig i wella canlyniadau drwy ymyrryd yn gynnar a chydlynu ymyriadau angenrheidiol er mwyn cefnogi newid parhaol a meithrin gwydnwch. Mae hyn wedi golygu dull amlasiantaethol er mwyn adeiladu ar arferion a darpariaeth bresennol er mwyn galluogi menywod a'u plant i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu cymunedau eu hunain.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ariannu'r cynllun hwn ers 2015 ac, yn ystod y peilot (Caerdydd a Chwm Taf), cafodd dros 1,500 o fenywod gymorth ymyrryd yn gynnar er mwyn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion a mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Dangosodd gwerthusiad ffurfiol o'r cynlluniau peilot hyn ostyngiad o 26% mewn aildroseddu a nodwyd bod y gyfradd ailarestio gyffredinol ar y safleoedd peilot tua hanner y gyfradd mewn safleoedd eraill (17.8% o gymharu â 35%). Hefyd nododd y gwerthusiad arbedion cost sylweddol i blismona, oherwydd am bob £1 a wariwyd ar y Cynllun Dargyfeirio, arbedwyd £2.35.

Ochr yn ochr â hyn, mae Gwasanaeth Dargyfeirio 18-25 hefyd wedi'i ariannu gan y Comisiynydd ers 2015. Dangosodd y cynllun hwn ymhellach fuddiannau ymyrryd yn gynnar drwy atal oedolion ifanc rhag...



dod yn rhan o'r system Cyfiawnder Troseddol a'u dargyfeirio i ymyriadau a chymorth a oedd yn seiliedig ar anghenion unigol wedi'u hasesu. Gwnaeth y dull hwn feithrin ymhellach ddealltwriaeth o'r math o droseddu a gyflawnir gan oedolion ifanc, gyda'r nod o ddefnyddio'r hyn a ddysgir i atal aildroseddu pellach.

Mae cyfuno'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Fraenaru i Fenywod a Chynllun Dargyfeirio 18-25 yn darparu dull symlach o gyflawni ymyriadau mewn dalfeydd, gan gydnabod y manteision ehangach y gellir eu sicrhau drwy ddarparu dull gweithredu wedi'i deilwra at fenywod ac oedolion ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r System.

I gydnabod y buddiannau hyn, cafodd Partneriaeth Gomisiynu ei ffurfio rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru a Llywodraeth Cymru i gomisiynu Model Darparu Gwasanaethau Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 oed ledled De Cymru a Gwent.

Yn 2022-23 mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi cyfrannu £713,490.39 tuag at y gwasanaeth hwn, gyda chyfanswm o £1.5 miliwn wedi'i ymrwymo gan y bartneriaeth gomisiynu bob blwyddyn tan 2023. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi'r gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 oed i gynnig cymorth gwirfoddol i'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer Dargyfeirio (neu ddatrysiad y tu allan i'r llys) ac i'r Rhaglen Fraenaru i Fenywod ddod yn wasanaeth llawer ehangach sy'n darparu 'Gwasanaeth Dull System Gyfan' sy'n cefnogi menywod ar bob cam o'r system cyfiawnder.

Mae Future4, consortiwm sy'n cynnwys G4S, Safer Wales, Include a Llamau yn darparu'r gwasanaeth hwn ledled De Cymru a Gwent. Cafodd y gwasanaeth ei lansio yn ystod pandemig COVID-19, ac yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth Future4 ymateb

ASTUDIAETH ACHOS Y RHAGLEN FRAENARU I FENYWOD:

## STORI JACKIE

Ar y dechrau, roedd Jackie yn amharod i dderbyn cymorth gan y Gwasanaeth Dull System Gyfan i Fenywod ond, yn y pen draw, derbyniodd gymorth gan ei gweithiwr achos. Trwy hynny, datgelodd Jackie gam-drin rhywiol a chorfforol a ddechreuodd 3 mis i mewn i'w pherthynas bresennol o 7 mis; roedd hi'n teimlo'n ofnus ac roedd wedi ymbellhau oddi wrth ei theulu gan nad oeddent yn hapus am y berthynas.

Wedi'i chefnogi a'i chysuro gan ei gweithiwr achos, daeth yn amlwg bod Jackie yn agored iawn i niwed. Yn ddibynnol ar alcohol ac wedi'i hynysu oddi wrth ei ffrindiau a'i theulu, doedd hi byth yn mynd i unman heb ei phartner ac ar yr achlysur prin pan roedd hi'n gwneud hynny, byddai'n cael ei cham-

drin
yn gorfforol ar ôl dychwelyd adref.

Yn dilyn asesiad, cafodd ei derbyn i loches sy'n delio ag anghenion cymhleth, a threfnwyd cynllun i hebrwng Jackie i gasglu ei heiddo a sicrhau bod modd iddi wneud hynny'n ddiogel. Mae Jackie, sydd wedi cael ei chroesawu ac wedi ymgartrefu mewn lle diogel, wedi ymgysylltu'n llawn â'r holl wasanaethau cymorth sydd wedi ei helpu i ddeall perthnasoedd iach a dod o hyd i ddulliau eraill o ymdopi.

drwy addasu'r dull o ddarparu'r gwasanaeth a defnyddio dulliau newydd. Gwnaeth hyn sicrhau bod menywod ac oedolion ifanc mewn argyfwng wedi parhau i gael y cymorth angenrheidiol ar adeg anodd iawn. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi nodi cyfleoedd i arloesi, sy'n cynnwys y Rhaglen Fraenaru i Fenywod yn cydweithio â Gwasanaeth Cynhwysol Safer Wales i gyflwyno cynllun peilot yn cynnig cymorth i fenywod ifanc 17 oed sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac a ystyrir yn agored i niwed neu sydd wedi profi camfanteisio rhywiol neu droseddol. Mae'r Gwasanaeth 18-25 hefyd wedi bod yn datblygu cyfres o weithdai sy'n canolbwyntio ar anghenion oedolion ifanc a'r troseddau a gyflawnir. Mae hyn yn cynnwys gweithdai ar Droseddau Casineb, Emosiynau a Pherthynas, Camddefnyddio Alcohol, Troseddau Cyllyll/Arfau bygythiol a Llesiant.

Cynhelir gwerthusiad o Ddull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a Gwasanaeth 18-25 gan Cordis Bright. Canfu'r gwerthusiad hwn fod y rhai a atgyfeiriwyd yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau Future 4 ac efallai na fyddent wedi ymgysylltu ar y pwynt hwn o ran eu hymgysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol fel arall. Ymhlith y nodweddion allweddol a sicrhaodd fod modd ymgysylltu'n gadarnhaol roedd canfyddiad bod cymorth yn annibynnol ar y System Cyfiawnder Troseddol a dull wedi'i deilwra ar gyfer lleoliad, math, dwyster a ffurfioldeb yr ymgysylltiad. Nododd y gwerthusiad hefyd welliannau mewn canlyniadau personol ar gyfer y rhai a atgyfeiriwyd, gan gynnwys gwelliannau mewn iechyd meddwl a llesiant, iechyd corfforol a pherthnasoedd teuluol. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi a disgwylir iddo lywio darpariaeth yn y dyfodol. Disgwylir i'r gwerthusiad lywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol, yn ogystal â chyfeiriad ehangach y polisi troseddu benywaidd a chyfiawnder ieuenctid/Y2A yng Nghymru (er enghraifft, mewn perthynas â gweithredu glasbrint ar gyfer troseddu benywaidd a chyfiawnder ieuenctid).

ASTUDIAETH ACHOS Y GWASANAETH I BOBL IFANC 18-25:

## STORI WILL

**Mae gan Will hanes o ymddygiad meddw ac anfreolus a defnyddio cyffuriau. Cafodd rybudd am droseddau cysylltiedig a chafodd ei atgyfeirio at y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 oed. Oherwydd datgeliad o ddefnyddio cocên, ynghyd ag alcohol, gwnaeth y Rhingyll yn y Ddalfa atgyfeiriad at Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol (DAS) lleol i gael cymorth hefyd.**

**Cafodd Will ei ynysu oddi wrth ei deulu oherwydd cyhuddiadau o dreisio gan aelod arall o'r teulu pan oedd yn 14 oed. Cofrestrodd ag ysgol newydd a dirywiodd ei gylch cymdeithasol, ei addysg, ei gysylltiadau teuluol a'i iechyd meddwl i gyd. Er iddo gael ei ddyfarnu'n ddieuog ac er i'r aelod hwnnw … bod ei honiad yn ffug, … parhau i ddioddef camdriniaeth gan gyfoedion sydd wedi arwain at orbryder difrifol ac anallu i adael gartref ar ei ben ei hun, gan ddibynnu ar gyffuriau ac alcohol i'w helpu i ymdopi.**

**Roedd gweithiwr achos Will yn cydnabod … pwysigrwydd cymryd pethau ar gyflymde… a oedd yn addas iddo oherwydd ei orbry… a'i iselder.**

I ddechrau, roedd yn nerfus iawn am ymgysylltu a dim ond os oedd aelod o'r teulu yn bresennol y byddai'n gwneud hynny. Trwy'r Gwasanaeth 18-25 oed a DAS, mae Will wedi datblygu mecanweithiau ymdopi eraill, wedi ehangu ei ddiddordebau a'i hobïau, ac wedi bod wrthi'n chwilio am gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth.

Mae wedi ymgysylltu â gwasanaethau i'w helpu i ymdopi a mynd i'r afael â thrawma yn y gorffennol, mae wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon ac nid yw wedi cyflawni unrhyw droseddau pellach.

# CYNLLUN PEILOT DRWS TROI DATRYSIADAU Y TU ALLAN I'R LLYS

Nod cynllun peilot Drws Troi Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yw datblygu dull wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sydd wedi cyflawni nifer o droseddau lefel isel lle. Fe'i sefydlwyd yn 'Beilot Darganfod' i gefnogi'r gwaith o greu llwybrau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n cydnabod anghenion lluosog a chymhleth a allai fod yn sbardunau ymddygiad troseddol. Cyflwynwyd hyn drwy ddarparu dull allgymorth cymunedol sy'n ceisio cefnogi unigolion i ddiwallu eu hanghenion, gan ei gwneud hi'n llai tebygol y byddant yn aildroseddu a lleihau'r galw ar y System Cyfiawnder Troseddol o bosibl.

Mae'r cynllun peilot wedi ceisio adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth sy'n bodoli eisoes o fentrau ymyrraeth gynnar presennol a llywio dealltwriaeth o arfer da ar gyfer gweithio gyda'r math hwn o garfan hefyd. Un o'r amcanion fydd defnyddio'r hyn sydd wedi'i ddysgu o'r cynllun peilot hwn i lywio strategaethau comisiynu yn y dyfodol, yn enwedig o ran datblygu gwasanaethau i'r rhai sy'n cyflawni troseddau lefel isel yn aml a hefyd i garfannau gwrywaidd hŷn (26+).

Lansiwyd y cynllun peilot ym mis Gorffennaf 2021 ac mae canfyddiadau cynnar wedi dangos bod gan lawer o'r rhai a atgyfeiriwyd broblemau gydag alcohol, a allai fod yn sbarduno eu hymddygiad troseddol. Mae pwysigrwydd cymorth wyneb yn wyneb i bontio'r bwlch a meithrin perthnasoedd wedi'i nodi ar gyfer y garfan hon. Ymddengys fod y cymorth a roddwyd wedi bod yn llwyddiannus wrth helpu unigolion i wneud cynnydd mewn meysydd fel sgiliau bywyd ac iechyd a llesiant.

Mae'r cynllun peilot hwn wedi bod yn fenter ar y cyd rhwng Heddlu De Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Heddlu Gwent, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Future4. Mae'r cynllun peilot yn eistedd ochr yn ochr â Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 oed sydd wedi'u contractio ar hyn o bryd. Mae'r cynllun peilot wedi'i ymestyn yn ddiweddar i fis Medi 2023.

# Y GLASBRINT AR GYFER CYFIAWNDER IEUENCTID A'R GLASBRINT CYFIAWNDER I FENYWOD

Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru y 'Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (Troseddu Benywaidd yn flaenorol)', sy'n amlinellu nifer o ffrydiau gwaith cyffredinol a blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella gwasanaethau i bobl ifanc a menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.




Wales Youth Justice Advisory Panel.

The implementation of the Youth Justice Blueprint will be overseen through a specialist programme under the oversight of the

**Nod y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yw gwneud y canlynol:**

- Datblygu system cyfiawnder ieuenctid sy'n trin plant â pharch, yn deg ac yn eu helpu i adeiladu ar eu cryfderau a gwneud newidiadau a dewisiadau cadarnhaol yn eu bywydau.
- Helpu plant i fyw bywydau di-drais, cadarnhaol ac iach, gan wella llesiant a gwneud cymunedau'n fwy diogel.
- Lleihau nifer y plant yn y system cyfiawnder ieuenctid drwy ddulliau dargyfeirio effeithiol ac atal troseddu drwy fynd i'r afael â'r ffactorau agored i niwed sy'n aml yn arwain at droseddu.
- Gostwng lefelau aildroseddu a chreu amgylcheddau diogel lle y caiff plant eu hamddiffyn rhag niwed a'u cefnogi i ffynnu.
- Dilyn trywydd uchelgeisiol ac eofn lle darperir gwasanaethau cynaliadwy, trawsnewidiol sy'n cynnig parhad gofal drwy'r system gyfan.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i atgyfnerthu'r dull partneriaeth integredig o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid sy'n blaenoriaethu'r 'plentyn yn gyntaf' ac yn gwella canlyniadau i blant.

Bydd tîm y Comisiynydd yn cyfrannu at y gwaith cyflawni cyffredinol, ond cytunwyd mai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ddylai arwain y ffrwd waith Dargyfeirio Cyn y Llys o fewn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Bydd y ffrwd waith hon yn anelu at sicrhau bod arferion da presennol yn parhau a bod cysondeb o ran y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru. Bydd hyn hefyd yn cynnwys nodi cyfleoedd i ddatblygu ymyriadau ar gyfer dargyfeirio a datrysiadau y tu allan i'r llys (e.e. rhybuddiad ieuenctid, rhybuddiad amodol ieuenctid) er mwyn diwallu anghenion plant gwahanol a mynd i'r afael ag amrywiaeth o ymddygiadau troseddol yn effeithiol.




Gan weithio ochr yn ochr â Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei rôl fel Uwch-swyddog Cyfrifol am Raglen Menywod mewn Cyfiawnder, mae'r tîm Portffolio Cyfiawnder Troseddol yn cefnogi'r broses o gyflwyno'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Mae'r tîm wedi chwarae rôl benodol yn cefnogi'r Ffrwd Waith Atal ac Ymyrryd yn Gynnar ac wedi gweithio i symudiad ymrwymiad y Glasbrint yn ei flaen er mwyn cyflwyno cenhedlaeth nesaf y model cyflawni system gyfan integredig o ddechrau'r broses i'r diwedd i fenywod sy'n rhan o'r system Cyfiawnder Troseddol, neu'n wynebu risg o fynd yn rhan ohoni, ar draws Cymru gyfan.

**Nod y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yw gwneud y canlynol:**

- Helpu menywod i fyw bywydau di-drais, cadarnhaol ac iach, gan wella llesiant a gwneud cymunedau'n fwy diogel.
- Lleihau nifer y menywod yn y system drwy ymyrryd yn gynt i'w cadw'n ddiogel a mynd i'r afael â'r ffactorau agored i niwed sy'n aml yn arwain at droseddu.
- Dilyn trywydd uchelgeisiol ac eofn lle darperir gwasanaethau cynaliadwy, trawsnewidiol sy'n unigryw i Gymru ac a arweinir yn lleol, gan adeiladu ar fodel llwyddiannus Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod, a dysgu ohono.
- Creu amgylcheddau diogel lle y caiff plant a menywod eu hamddiffyn rhag niwed a'u helpu i ffynnu.
- Integreiddio gwasanaethau er mwyn cynnig cymorth wedi'i dargedu i fenywod, o'r dechrau i'r diwedd, gan gydnabod effaith hirdymor a phellgyrhaeddol carcharu menywod lle mae dulliau amgen mwy effeithiol o fynd i'r afael ag achosion ymddygiad troseddol gan ddefnyddio ymchwil a data perthnasol.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid i rannu gwersi a ddysgwyd y gellir eu mabwysiadu ar gyfer merched dan 18 oed a chydweithio i sicrhau parhad ymyriadau i fenywod ifanc sy'n pontio i wasanaethau oedolion.
- Pennu'r safon ar gyfer gwaith a chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a phartneriaid yn y dyfodol, gan gymhwyso'r egwyddorion yma wrth fabwysiadu dull

tebyg gyda dynion sy'n wynebu risg o droseddu.

# FFRAMWAITH I GEFNOGI NEWIDIADAU CADARNHAOL I'R RHEINI SY'N WYNEBU RISG O DROSEDDU YNG NGHYMRU

Datblygwyd y Fframwaith hwn ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn aelod ohono. Bydd y Fframwaith yn gwella'r gwaith partneriaeth cryf sy'n bodoli yng Nghymru rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, asiantaethau Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ac asiantaethau gwirfoddol yn y trydydd sector. Mae cyfrifoldeb ar bob partner i ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb i anghenion troseddwyr unigol. Drwy ymgysylltu â'r fframwaith hwn, bydd partneriaid yn gallu darparu gwasanaeth mwy amrywiol a chyfannol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n osgoi dyblygu ac yn targedu blaenoriaethau a rennir.

Amcangyfrifir bod aildroseddu yn y DU yn costio oddeutu £7-10 biliwn. Mae cost economaidd troseddu yn helpu i dynnu sylw at yr amharu y gall troseddwyr ei achosi i'w cymunedau. Mae hyn, a'r angen i ddiogelu cymunedau rhag niwed, yn golygu bod angen lefel ddwys o gymorth ac adnoddau amlasiantaethol er mwyn lleihau canlyniadau negyddol troseddau'n effeithiol.

Mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i helpu i gyflawni'r fframwaith ac mae wedi cyfrannu at ei nod i gefnogi unrhyw droseddwyr sydd angen cefnogaeth, nid dim ond yn y meysydd â blaenoriaeth - ar yr adeg gywir, yn y man cywir ac yn y ffordd gywir - er mwyn sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni yn yr hirdymor, nid yn unig i droseddwyr, ond hefyd i'r rhai sydd ar fin troseddu a'u teuluoedd.

**Meysydd** â **blaenoriaeth y fframwaith yw:**

- Lleihau nifer y merched yn y system Cyfiawnder Troseddol
- Herio cyflawnwyr camdriniaeth ddomestig; mynnu eu bod yn atebol am eu gweithredoedd a darparu ymyriadau a chymorth i newid eu hymddygiad
- Gwella darpariaeth ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog
- Darparu cefnogaeth i Oedolion Ifanc/Unigolion sy'n Gadael Gofal
- Cefnogi Teuluoedd Troseddwyr ar ôl dedfrydu
- Cefnogi aelodau o'n cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn well

# PANEL CRAFFU AR DDATRYSIADAU Y TU ALLAN I'R LLYS

Mae gan Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru Banel Craffu hirsefydledig ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys a gadeirir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae paneli craffu yn adnodd pwysig i sicrhau bod yr heddlu yn cael ei ddwyn i gyfrif am ei ddefnydd o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, yn ogystal â darparu sicrwydd bod penderfyniadau anodd i ddefnyddio'r fath warediadau yn gyfiawn.

Mae canfyddiadau'r paneli hyn wedi darparu adborth effeithiol i Heddlu De Cymru (ar gyfer dysgu sefydliadol ac i ddiwallu anghenion hyfforddi neu ddatblygu swyddogion unigol) yn ogystal â nodi enghreifftiau o arferion da. Mae'r paneli yn cynnwys aelodau o nifer o bartneriaethau, gan gynnwys; yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, aelodau'r farnwriaeth, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaethau i Ddioddefwyr ac eraill. Mae'r partneriaid hyn yn darparu her 'cyfaill beirniadol' adeiladol ac yn codi llais a phryderon y cyhoedd.

Mae Tîm y Comisiynydd hefyd wedi bod yn gweithio gyda Thimau Troseddwyr Ifanc lleol i sefydlu Paneli Craffu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys i Bobl Ifanc. Fel y Panel Craffu ar gyfer Oedolion, bydd Paneli Ieuenctid yn ceisio sicrhau mwy o dryloywder, cysondeb ac atebolrwydd wrth ddefnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ar gyfer Pobl Ifanc (10-17 oed) yn Ne Cymru. Nod arall y paneli hyn fydd meithrin dealltwriaeth, hyder ac ymddiriedaeth yn y dull hwn o ddatrys achosion, a bydd hefyd yn sicrhau bod dioddefwyr wrth wraidd penderfyniadau De Cymru o ran Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Mae panel ieuenctid bellach wedi'i sefydlu ym mhob Uned Reoli Sylfaenol ledled De Cymru.

# BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL A RHEOLI TROSEDDWYR INTEGREDIG DE CYMRU

Cadeirir Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr Integredig De Cymru ar y cyd gan dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Mae'n llywodraethu partneriaid cyfiawnder troseddol a chymdeithasol ac yn rhoi cyfeiriad strategol iddynt, gan sicrhau y caiff canlyniadau effeithiol eu cyflawni er mwyn lleihau troseddu, aildroseddu a chreu cymunedau mwy diogel. Mae'r bwrdd, a reolir gan y Portffolio Cyfiawnder Troseddol, yn ceisio nodi cyfleoedd i gysoni gweithgareddau â phartneriaethau eraill ledled De Cymru er mwyn sicrhau dull ar y cyd o ddefnyddio adnoddau yn effeithlon a chyflawni blaenoriaethau yn effeithiol. Cytunodd aelodau'r Bwrdd ar raglen waith uchelgeisiol ar ffurf cynllun cyflawni, gan ganolbwyntio ar bedwar maes â blaenoriaeth. Llwyddwyd i gyflawni sawl amcan drwy'r rhaglen waith.

**Cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2021-22:**

- Deall natur agored i niwed a/neu anghenion cymhleth niferus pobl sydd wedi troseddu neu sy'n wynebu risg o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, a mynd i'r afael â nhw
- Deall anghenion a natur agored i niwed dioddefwyr a thystion ar bob cam o'u profiad Cyfiawnder Troseddol a mynd i'r afael â nhw
- Defnyddio tystiolaeth i ddeall achosion a sbardunau ymddygiad troseddol ac adeiladu ar ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar presennol a dylanwadu ar bolisi i leihau troseddu a gwneud newidiadau cadarnhaol
- Cymhwyso dull 'un gwasanaeth cyhoeddus' yng Nghymru er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hil

# CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

I'r rhai yn y System Cyfiawnder Troseddol, mae angen clir i sicrhau bod triniaeth ar gael ar gyfer camddefnyddio sylweddau er mwyn lleihau'r niwed i'r unigolyn, ond hefyd i sicrhau bod llai o risg o droseddu pellach sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, a'r niwed cysylltiedig i ddioddefwyr a'r cyhoedd. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yn cydgomisiynu gwasanaeth trin  camddefnyddio sylweddau, sef Dyfodol, sy'n anelu at ddarparu proses asesu, ymyriadau seicogymdeithasol a thriniaeth glinigol effeithiol.

Drwy gonsortiwm o ddarparwyr, mae Dyfodol yn anelu at adsefydlu a helpu i leihau'r niwed sy'n deillio o ymddygiad camddefnyddio alcohol a sylweddau anghyfreithlon niweidiol, i'r rhai sy'n dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol yn Ne Cymru, o'r gymuned i'r ddalfa, o'r ddalfa i'r carchar, ac o'r carchar nôl i'r gymuned.

Bydd llawer o'r cleientiaid a gefnogir gan Dyfodol nid yn unig yn gyflawnwyr ond hefyd yn ddioddefwyr, ac felly cynhelir asesiad cyfannol o anghenion a natur agored i niwed pob unigolyn gan weithwyr allweddol profiadol. Mae Dyfodol yn helpu pobl i wella eu bywydau a lleihau eu risg o gyflawni troseddau pellach sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol drwy gefnogi a helpu unigolion i ystyried eu hiechyd a'u llesiant, bod yn wybodus o ran eu dewis i ddefnyddio cyffuriau a bod yn ymwybodol o effeithiau cysylltiedig penderfyniadau gwael ar eu dyfodol.

Mae Dyfodol hefyd yn darparu presgripsiynau i'r rhai a fyddai fel arall yn aros cyfnodau hir o amser a thrwy gymryd camau prydlon er mwyn cadw pobl yn sefydlog ar feddyginiaeth ac mewn triniaeth, mae'r gwasanaeth yn gweithio i gadw unigolion a'r cyhoedd yn ddiogel rhag niwed.

**Mae'r graffig canlynol yn dangos rhai o'r canlyniadau allweddol o 2021-22:**

## UCHAFBWYNTIAU GWEITHGARWCH DYFODOL

### Y DDALFA

- **13317** o gysylltiadau
- **9057** o ymgysylltiadau gweithredol
- **362** o atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol
- **380** o atgyfeiriadau ychwanegol i Dyfodol a **325** o atgyfeiriadau i Dyfodol 4
- **14921** o gyfeiriadau

### CARCHARDAI Y SECTOR CYHOEDDUS

- **5741** o asesiadau
- **2380** wedi'u cymryd ar lwyth achosion
- **452** o lwyth achosion ym Mawrth 2022

### CLINIGOL

- **462** yn cael therapi amnewid opioid ym Mawrth 2022
- **784** o drosglwyddiadau clinigol
- **41%** o lwyth achosion clinigol ar Buvidal ym Mawrth 2022

### CYMUNED

- **2605** o atgyfeiriadau
- **1586** yn dechrau ar lwyth achosion
- **764** ar lwyth achosion ym Mawrth 2022

### CANLYNIADAU ALLWEDDOL

- **41%** o'r dynion a asesir yn cael eu gosod ar lwyth achosion Dyfodol yn y carchar
- **890** o bobl yn gadael y carchar yn mynd i apwyntiad rhyddhau Dyfodol
- **198** o achosion o gwblhau triniaeth gorchymyn statudol
- **530** o achosion o gwblhau triniaeth gymunedol yn llwyddiannus
- **84%** o drosglwyddiadau clinigol mewn carchardai yn mynd i wasanaethau clinigol cymunedol Dyfodol

## Dalfeydd yr Heddlu

Mae gweithwyr Dyfodol yn gweld pawb yn nalfeydd yr heddlu er mwyn asesu problemau yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddol ac a ydynt yn agored i niwed. Maent yn gweithio gyda'r heddlu i nodi'r rhai sydd fwyaf addas i gael profion cyffuriau, yn unol â gofynion Deddf Cyffuriau 2005. Maent yn cysylltu â thimau iechyd meddwl fforensig a thimau diogelu'r cyhoedd yr heddlu (er enghraifft) er mwyn rheoli'r risg i unigolion a'u hanghenion, gan roi triniaeth briodol i'w dargyfeirio o droseddu parhaus. Maent yn ceisio ymgysylltu â phawb sy'n cael eu cadw yn nalfeydd yr heddlu, gan annog pobl i gael triniaeth o'u gwirfodd, a darparu atgyfeiriadau ar gyfer unigolion â lefelau isel o gamddefnyddio sylweddol at wasanaethau cymorth ychwanegol.

## Llysoedd

Mae staff Dyfodol yn gweithio gyda Swyddogion Prawf i ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol am faterion camddefnyddio sylweddau i ddedfrydwyr ac fel y gellir darparu'r driniaeth briodol ar gyfer cyffuriau. Yna mae Dyfodol yn darparu ymyriadau seicogymdeithasol a therapi amnewid opiadau i'r rhai a gaiff orchymyn llys (Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau) ac yn darparu cymorth drwy eu gorchymyn llys a reolir gan y Gwasanaeth Prawf.



Project ADDER Addiction, Diversion, Disruption, Enforcement and Recovery

## Carchardai

Mae Dyfodol yn darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau anghlinigol yn y pedwar carchar yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae staff Dyfodol yn cyfarfod â charcharorion er mwyn cynnig cyfle i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau a derbyn cyngor ar leihau niwed, gan gynnwys grwpiau addysg ac ymyrryd i bawb y mae staff carchar yn nodi eu bod yn defnyddio sylweddau seicoweithredol yn anghyfreithlon. Os oes angen ymgysylltu mwy sylweddol, dyrennir gweithiwr achos o Dyfodol i ddarparu asesiad llawn a chynllun gofal yn seiliedig ar gamddefnyddio sylweddau, troseddau a risgiau hysbys eraill. Mae'n llwybr tuag at adfer gan gynnwys triniaeth yn y carchar a pharatoi i ailymuno â'r gymuned.

## Rhagnodi Buvidal

Y llynedd, cafodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu grant gan y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAF) i gynnig Buvidal, therapi amgen yn lle opiadau i'r unigolion hynny sydd fwyaf addas ar gyfer Buprenorphine sy'n cael ei ryddhau dros gyfnod estynedig. Mae cyllid SMAF pellach o £659,000 wedi'i ddyfarnu eleni ar gyfer Buvidal sy'n rhoi mwy o ryddid i unigolion, yn cynnig mwy o amddiffyniad rhag gorddos damweiniol, ac yn lleihau nifer yr ymweliadau â fferyllfeydd – ystyriaeth allweddol yn ystod pandemig COVID-19.

## Prosiect ADDER

Yn ystod 2021-22, cafwyd cyllid gan y Swyddfa Gartref i gychwyn Prosiect ADDER (Caethiwed, Dargyfeirio, Tarfu, Gorfodi ac Adfer) ym Mae Abertawe, sy'n cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Dyrannwyd tua £650,000 o gyllid.

**Trwy gweithgarwch gorfodi, dargyfeirio, trin ac adfer effeithiol, nodau Prosiect ADDER yw:**

- **lleihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau**
- **lleihau troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau**
- **lleihau nifer yr achosion o ddefnyddio cyffuriau**
- **tarfu'n sylweddol ac yn barhaus ar droseddwyr a rhwydweithiau niwed uchel sy'n ymwneud â chyflenwi a mewnforio cyffuriau/arfau tân yn y farchnad ganol**

Er bod sawl safle yn rhan o Prosiect ADDER, Bae Abertawe yw'r unig un yng Nghymru. Gan weithio gyda'n sefydliadau partner, rydym wedi defnyddio'r cyllid a gafwyd i wella gweithgarwch gorfodi, datblygu cyfleoedd i ddargyfeirio i ffwrdd oddi wrth y system Cyfiawnder Troseddol, yn enwedig i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, a gwella opsiynau triniaeth ac adfer.

Mae cyllid Prosiect ADDER a ddyrannwyd i weithgarwch gorfodi wedi caniatáu i Heddlu De Cymru brynu offer TG, cyflogi staff ychwanegol a darparu cymorth ariannol i gyflymu ymholiadau ac ymchwiliadau a sicrhau bod swyddogion yn cael eu cadw 'ar y stryd'. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae Prosiect ADDER wedi helpu i wella rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth rhwng yr heddlu, arweinwyr lleihau niwed camddefnyddio sylweddau lleol, a sefydliadau partner gan gynnwys asiantaethau'r trydydd sector.

Mae cyllid Prosiect ADDER a ddyrannwyd ar gyfer triniaeth ac adfer wedi caniatáu i Dyfodol ddatblygu ei wasanaethau, gan gynnwys:

## Ymyrraeth Gynnar:

**Caiff staff Dyfodol eu cyflogi i gefnogi'r rhai sy'n profi defnydd problemus o gyffuriau trwy gynnig ymyriadau byr o 4-6 sesiwn gan gynnwys cefnogi atgyfeiriadau ymlaen at wasanaethau eraill am gymorth parhaus ychwanegol os oes angen.**

## Recovery Plus:

**Nod y prosiect hwn yw sicrhau parhad yn y driniaeth y mae pobl sy'n dod i ddiwedd y llwybr triniaeth sylweddau Cyfiawnder Troseddol 12 mis yn ei chael, i'w cefnogi yn eu hadferiad gan ddarparu triniaeth glinigol a chymorth gwaith achos sy'n canolbwyntio ar symud ymlaen â nodau bywyd, llesiant, cyflogaeth, addysg, gweithgareddau/hobïau cadarnhaol, a hwyluso newid a datblygu gwydnwch.**

## Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl (MHTRs):

Mae Prosiect ADDER yn cyfrannu cyllid ar y cyd â Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi i gefnogi'r ddarpariaeth o MHTRs, gan sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol yn cael cyfle i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl sylfaenol, trawma a meddwl ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu gydag arbenigwr.

## Gwasanaeth Rhagnodi Mynediad Cyflym

Mae Prosiect ADDER yn cyfrannu cyllid ar y cyd â Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin i ddarparu RAPS. Mae RAPS yn ymgysylltu â'r rhai sydd fwyaf agored i niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac sy'n wynebu risg o fynd i mewn i'r system Cyfiawnder Troseddol. Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad cyflym at driniaeth glinigol a gwaith achos, gan gynnwys allgymorth rhagweithiol.

Mae Prosiect ADDER hefyd yn ariannu Swyddog Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth llawn amser i sicrhau bod llais y rhai sydd â phrofiad bywyd yn cael ei glywed, a bod eu hadborth a'u gwybodaeth yn cael eu defnyddio i lywio pa wasanaethau a gynigir, a sut mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu, eu cynllunio a'u darparu ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol.

Ym mis Hydref 2021, gwnaethom groesawu'r Ysgrifennydd Cartref, Priti Patel, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Abertawe i rannu ein gwaith ar Prosiect ADDER. Gwnaethant gyfarfod â phobl sydd wedi manteisio ar gymorth drwy Prosiect ADDER, yn ogystal â staff sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau.

Rydym yn edrych ymlaen at weithredu Prosiect ADDER yn ystod 2021-22 ac at ddatblygu'r prosiect hwn ymhellach ac adrodd ar gyflawniadau yn ystod 2022-23, gan gydweithio â sefydliadau partner i gyflawni llwyddiant.



Cafodd Matthew* ei atgyfeirio at Recovery Plus gan Ymyriadau Troseddwyr Dyfodol yn dilyn methiant ei gynllun lleihau methadon (meddyginiaeth a ddefnyddir i gefnogi triniaeth amnewid opioidau) a allai fod wedi arwain at gael presgripsiwn am fwy na 52 wythnos. Bwriad Matthew oedd cwblhau gostyngiad a gynlluniwyd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd yn aros am lawdriniaeth i osod cymal clun newydd ac nid oedd yn gallu goddef y boen yr oedd yn ei phrofi ar lefelau isel o fethadon. Roedd ganddo hanes o droseddu treisgar a meddiangar i gefnogi defnyddio cyffuriau Dosbarth A, ac roedd risg uchel o ailwaelu a niwed dilynol i Matthew a'r gymuned. Ar ôl iddo gael ei dderbyn gan Recovery Plus, gwnaethpwyd atgyfeiriad brys at Gyfarfod Dyrannu ar y Cyd ar gyfer presgripsiwn tymor hwy a chynyddwyd ei fethadon fel bod ei boen yn cael ei rheoli. Roedd Matthew mewn llety â chymorth tymor hir yn aros am gynnig llety parhaol. Roedd hefyd yn gofalu am ei fam sydd â phroblemau iechyd difrifol. Roedd wedi'i ynysu'n gymdeithasol heb unrhyw berthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol.

Cynyddwyd dos methadon Matthew i lefel lle roedd lefel y boen yn oddefadwy, a chafodd ei atgyfeirio at ragnodwr cymunedol trwy'r broses Cyfarfod Dyrannu ar y Cyd. Rhoddwyd sesiynau wyneb yn wyneb a thros y ffôn un i un wythnosol i Matthew i roi cymorth parhaus.

Cafodd gymorth hefyd drwy gyfarfodydd misol ar y cyd â'i weithiwr allweddol tai i'w helpu gyda'i gais am dŷ parhaol. Mae Matthew wedi bod yn mynychu cyfarfodydd SMART Recovery wythnosol a gynhelir o dan drwydded gan Dyfodol. Mae'r cyfarfodydd hyn dan arweiniad cyfoedion wedi ei helpu i ddysgu sgiliau a thechnegau i reoli ei adferiad o'i ddibyniaeth ar gamddefnyddio sylweddau, gan roi cyfleoedd i Matthew ffurfio perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol gyda chyfoedion. Mae Matthew yn elwa ar gael cymorth ar wahân gan gleientiaid Cyfiawnder Troseddol i hyrwyddo newid mewn ffordd o fyw.

Mae'r Tîm Cyswllt Camddefnyddio Sylweddau Sylfaenol lleol wedi derbyn Matthew ar gyfer rhagnodi yn y gymuned a bydd yn dechrau casglu ei bresgripsiwn o fferyllfa gymunedol. Bydd yn parhau i gael cymorth gan ADDER Recovery Plus nes ei fod yn teimlo'n annibynnol.

Mae gan Matthew ddiddordeb mewn datblygu ei addysg ac mae'n chwilio am gyfleoedd i ddychwelyd i'r coleg. Mae Matthew yn grefftwr cymwys a phrofiadol a byddai'n hoffi dychwelyd i'r gwaith ond mae ei iechyd corfforol yn cyfyngu ar ei symudedd ar hyn o bryd. Mae Matthew yn cael profion negyddol i gyffuriau anghyfreithlon ac nid yw'n troseddu.

"Rwy'n gwneud yn well ac ydw i wedi'i wneud erioed o'r blaen yn fy holl fywyd oherwydd y cymorth a'r gefnogaeth rydw i wedi'u cael gan Dyfodol a Recovery Plus.

Mae anawsterau o'm blaen oherwydd fy nghartref, fy iechyd, a'm teulu, yn enwedig fy mam, ond rwy'n teimlo'n hyderus y galla' i eu goresgyn.

Rydw i yn y sefyllfa orau rydw i bod ynddi erioed, diolch i chi gyd."

* Defnyddiwyd ffugenw yn yr astudiaeth achos hwn.

**Mae ein dull cyffredinol wedi canolbwyntio ar gydweithio'n well â phartneriaid er mwyn helpu i lunio gwasanaethau, galluogi newid i systemau, llywio'r broses o wneud penderfyniadau, codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth. Cydweithio â phartneriaid o fewn y Byrddau Cynllunio Ardal er mwyn sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a'r cymunedau ehangach.**

## Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud nesaf:

- Cwblhau strategaeth iechyd meddwl ar y cyd ar gyfer Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru.
- Cwblhau'r gwaith gyda'r Sefydliad Iechyd Meddwl sydd wedi bod yn edrych ar effaith llesiant meddyliol y rhai sy'n mynd drwy'r ddalfa ac i mewn i wasanaethau dargyfeiriol.
- Edrych ar gydgomisiynu ar draws partneriaid ehangach a meysydd strategol i gryfhau a hyrwyddo perthnasoedd gwaith
- Edrych ar elfennau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, a defnyddio'r data a ddarperir gan y contract presennol i hysbysu ein partneriaid a llywio ein dulliau cyflawni yn well
- Cyflawni rhaglen waith partneriaeth Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwyr Integredig yn Ne Cymru
- Datblygu dealltwriaeth o 'broffilio troseddau' rhanbarthol a'n hymateb cyfiawnder troseddol cyfunol presennol
- Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid (ffrwd waith dargyfeirio cyn y llys): Anelu at sicrhau bod arfer da presennol yn cael ei gynnal a bod cysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod digon o ffocws ar ganlyniadau Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal o fewn byrddau rhanbarthol
- Gwasanaethau pontio gwell o bobl ifanc i oedolion a phecynnau cymorth ar gyfer hyn, pobl 18 i 24 oed
- Cyflawni cyfiawnder ieuenctid yn Ne Cymru drwy arweinyddiaeth effeithiol, gosod cyfeiriad strategol, a llywodraethu cadarn
- Gweithio gyda phartneriaid Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau bod y cyfraniad ariannol a wneir gan y Comisiynydd yn cael ei wario'n effeithiol
- Ymatebion penodol i rywedd i ddiwallu anghenion menywod ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid
- Glasbrint Cyfiawnder Menywod, Cefnogi'r Ffrwd Waith Atal ac Ymyrryd yn Gynnar: cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau i greu cymdeithas decach a mwy cyfartal gyda chanlyniadau gwell a chyfiawnder i fenywod
- Sicrhau bod atal ac ymyrryd yn gynnar yn cael eu hymwreiddio fel blaenoriaeth gyson ar draws partneriaid De Cymru

- Dod â phartneriaid perthnasol ynghyd i sicrhau bod gennym ddull cyson a chydlynol ar gyfer cyflawni Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn Ne Cymru a Gwent (ond ledled Cymru lle bo modd)

- Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid lleol i hyrwyddo dulliau arloesol o atal ac ymyrryd yn gynnar

- Ymgysylltu a chefnogi cyflawniad y strategaeth ar y cyd 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini y mae risg y byddant yn troseddu yng Nghymru'.

- Cyflawni'r blaenoriaethau, yr amcanion a'r argymhellion fel y'u nodir yn Rhaglen Partneriaeth Rheoli Troseddwyr De Cymru (gan gynnwys adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Troseddwyr Integredig)

- Chwilio am gyfleoedd cydgomisiynu a chyllido yn y dyfodol

- Datblygu dulliau arweinyddiaeth lleol ar gyfer oedolion ifanc yng Nghaerdydd

- Gweithio gyda phartneriaid a gomisiynwyd a phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i gasglu a dadansoddi data gyda'r nod o ddeall, archwilio a gweithredu'n well ar faterion sy'n ymwneud ag anghymesuredd a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth

- Datblygu ein dulliau o berfformio, goruchwylio, craffu a sicrhau ansawdd y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol

- Gwella ein dealltwriaeth o effaith prosiectau a rhaglenni

- Gwell aliniad rhwng y Portffolio Craffu a Sicrwydd a'r Portffolio Cyfiawnder Troseddol

- Defnyddio fforymau Cyfiawnder Troseddol (megis Byrddau Cyfiawnder Troseddol De Cymru a Rheoli Troseddwyr Integredig) i osod blaenoriaethau traws-sector a fydd yn ymateb i anghenion cymunedau ethnig lleiafrifol.

- Defnyddio gwaith ymchwil a gwerthuso i lywio blaenoriaethau strategol a datblygu sylfaen dystiolaeth 'o'r hyn sy'n gweithio'

- Sganio'r gorwel:

  - Deall a bod yn sensitif i'r ffactorau ysgogi gwleidyddol sy'n effeithio ar ein maes polisi

  - Cadw golwg ar sylfeini tystiolaeth newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i lywio ein gwaith

- Cyfrannu at weithgareddau ymchwil a gwerthuso sy'n berthnasol i'r dirwedd Cyfiawnder Troseddol


HEDDLU
POLICE

# BLAENORIAETH

# 05

**Byddwn yn sicrhau bod Heddlu De Cymru yn parhau i fod yn heddlu sy'n perfformio'n dda o ran yr ymateb gweithredol i droseddau, bygythiadau, niwed a chanfod troseddwyr**

Mae Heddlu De Cymru yn heddlu strategol allweddol wrth gefnogi digwyddiadau mawr y tu allan a'r tu mewn i'w ffiniau, gan wneud cyfraniad pwysig at blismona digwyddiadau mawr. Ar adegau arferol mae'n gyfrifol am blismona nifer o ofynion sylweddol, sy'n cynnwys dau dîm pêl-droed proffesiynol, ac mae hefyd yn gartref i dimau rygbi a phêl-droed rhyngwladol. Mae'r Comisiynydd yn cyfrannu'n rheolaidd at gefnogi'r ymateb i'r gofynion hyn, gan gysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i sicrhau bod cymorth digonol ar gael i fodloni'r gofyniad plismona ychwanegol.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i ymgyrchu am gyllid Prifddinas. Nid yw Heddlu De Cymru wedi derbyn dros £106m mewn cyllid fformiwla sydd wedi'i rewi ers bron i ddau ddegawd er gwaethaf newidiadau yn y boblogaeth a'r amgylchedd plismona. Mae cost flynyddol ychwanegol yn gysylltiedig â phlismona Prifddinas Cymru, sef  £4m, nas cydnabyddir chwaith yn y fformiwla gyllido bresennol.

Yn ystod 2021-22, swyddogion heddlu yn Ne Cymru a Gwent oedd y cyntaf yn y DU i ddatblygu a defnyddio technoleg i adnabod unigolion y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt mewn amser real trwy ap adnabod wynebau newydd ar eu ffonau symudol.

Mae'r ap yn galluogi swyddogion i gadarnhau hunaniaeth rhywun sydd dan amheuaeth bron yn syth, hyd yn oed os yw'n darparu manylion ffug neu gamarweiniol, gan sicrhau ei fod yn cael ei arestio'n gyflym. Gellir datrys achosion o gam-adnabod yn hawdd heb fod angen mynd i orsaf heddlu neu'r ddalfa.

Wedi'i lansio ym mis Rhagfyr 2021, parhaodd y cyfnod profi am 3 mis a chafodd yr ap – a elwir yn Ap Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr – ei ddefnyddio i ddechrau gan 70 o swyddogion o Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent. Bydd yr adolygiad o'r cynllun peilot yn cael ei ddefnyddio i nodi gwersi a mireinio'r system i lywio'r potensial ar gyfer ei gyflwyno'n ehangach ar draws cymunedau De Cymru a Gwent.

“Mae'n bwysig cofio bod swyddogion yr heddlu wastad wedi gallu nodi rhywun rydym yn chwilio amdano mewn perthynas â throsedd a'u stopio ar y stryd. Y gwahaniaeth wrth ddefnyddio'r dechnoleg hon yw pa mor gyflym a chywir y gellir adnabod ac arestio'r unigolyn a pha mor gyflym y gellir caniatáu i berson nad yw'r heddlu'n chwilio amdano fynd ar ei hynt."

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru,

**Alun Michael**

# BLAENORIAETH 06

**Byddwn y gwario eich arian yn ddoeth ac yn cefnogi ein pobl i ddarparu'r gwasanaeth plismona gorau posibl yn eich cymuned**

Yn 2022/23, dyrannwyd grant 'arian parod gwastad' ar gyfer plismona unwaith eto, heb ystyried chwyddiant na phwysau cost eraill, gan olygu ei fod yn gyfystyr â gostyngiad pellach mewn termau real. Ynghyd ag effeithiau chwyddiant a'r newid mewn galw, roedd hyn yn golygu ein bod yn wynebu bwlch parhaus yn y gyllideb. Fel y cyfryw, trosglwyddodd Llywodraeth y DU faich cau'r bwlch hwn i'r trethdalwr lleol, gan gynyddu praesept yr heddlu er mwyn gwneud iawn amdano. Serch hynny, y praesept yn Ne Cymru yn 2021-22 oedd yr isaf ond un o blith y pedwar heddlu yng Nghymru. Er gwaethaf yr her ariannol a wynebir, rydym yn parhau i fod yn effeithlon, a lle bynnag y bo'n bosibl, rydym wedi sicrhau arbedion drwy wneud defnydd mwy effeithlon o'r fflyd, eiddo, cyflenwadau a gwasanaethau, yn hytrach na thrwy leihau nifer y swyddogion a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu.

Yn dilyn adolygiad strategol o'r ystâd a chan gadw'r rhaglen genedlaethol i recriwtio mwy o swyddogion mewn cof, creodd Heddlu De Cymru gyfleuster hyfforddiant addas at y diben modern ac effeithlon, yn lle'r hen gyfleusterau sy'n bodoli ledled ardal yr heddlu. Bydd y rhaglen ad-drefnu a moderneiddio hon yn arbed arian yn y tymor hwy.

Mae'r cyfleuster pwrpasol hwn yn bodloni'r holl ofynion addysgu ar un safle, a chafodd ei gwblhau ar ddiwedd 2021-22. Mae'r adeilad pedwar llawr yn gartref parhaol i'r Gwasanaethau Dysgu a Datblygu ac Adnoddau Dynol.

Y tu mewn i'r cyfleuster hyfforddi mae dwy ystafell hyfforddi fawr ar gyfer profion ffitrwydd, hyfforddiant taser a hyfforddiant diogelwch swyddogion, yn ogystal ag ystafelloedd dosbarth a theatr ddarlithio.

Dywedodd Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu: "Mae datblygiad Canolfan Ddysgu'r Heddlu ym Mhencadlys yr Heddlu yn fuddsoddiad mawr yn y gwaith o hyfforddi swyddogion a staff newydd a phresennol yr heddlu, ar gyfer heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

"Mae recriwtio mwy o swyddogion yr heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ogystal â sicrhau bod yna swyddogion i gymryd lle'r rhai sydd ar fin ymddeol yn golygu bod yn rhaid i Heddlu De Cymru recriwtio a hyfforddi tua 1,000 o swyddogion newydd dros y tair blynedd nesaf. Mae honno'n dasg aruthrol ac mae'n hanfodol bod gennym y cyfleusterau cywir i allu gwneud hynny.

"Mae hyfforddiant wedi'i foderneiddio'n llwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly bydd y cyfleusterau newydd hyn yn ein galluogi i ddarparu'r hyfforddiant o ansawdd uchel hwnnw y byddai'r cyhoedd yn disgwyl i ni ei ddarparu i'n swyddogion heddlu yn y dyfodol."



Roedd cyfleusterau hyfforddi wedi'u lleoli ledled ardal yr heddlu ac, o ganlyniad i ddiffyg buddsoddi, mae rhai adeiladau mewn cyflwr gwael iawn gan gynnwys y defnydd o gabanau symudol.

Mae'r datblygiad newydd, sy'n werth £28m, yn rhan o strategaeth 10 mlynedd i ddisodli nifer o hen adeiladau sy'n gostus i'w hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw. Ariennir rhan o'r cynllun hwn drwy werthu nifer o safleoedd a fydd yn sicrhau derbyniadau cyfalaf o £24m, arbediad o £19m ar gostau a fyddai wedi bod yn angenrheidiol i redeg hen adeiladau, a gostyngiad o £2m mewn costau rhedeg blynyddol.

Mae rhaglen Recriwtio'r Llywodraeth i benodi 20,000 o swyddogion yr heddlu yn ogystal â chymryd lle'r rhai hynny sy'n ymddeol cyn hir yn golygu bod yn rhaid i Heddlu De Cymru recriwtio a hyfforddi tua 1,000 o swyddogion newydd dros gyfnod o dair blynedd. Cynhelir rhan o'r hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth sy'n gofyn am nifer o ystafelloedd ymneilltuo a chyfleusterau cyfarfod a chaiff y podiau cyfarfod allanol eu defnyddio at y diben hwn.

Ochr yn ochr â buddsoddi yn ein hystâd a'i haddasu, rydym wedi parhau i gyfrannu cyllid at wasanaethau hanfodol i'r rhai hynny y mae cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt. Mae hyn wedi cynnwys darparu Eiriolwyr Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVAs) ac Eiriolwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) sydd eu hangen yn fawr. Mae'r eiriolwyr wedi darparu cymorth a chefnogaeth amhrisiadwy i ddioddefwyr, ni waeth beth fo'u rhywedd, sydd ynghlwm wrth y broses cyfiawnder troseddol drwy sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu rhoi yn gyntaf, eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl a'u bod yn cael cymorth a thawelwch meddwl yn y llys.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn ariannu nifer o gynlluniau dargyfeirio, sy'n ceisio lleihau troseddu ac aildroseddu drwy ddargyfeirio unigolion o'r system cyfiawnder troseddol ac i mewn i ymyriadau cefnogol drwy ymyrraeth gynnar. Drwy gamau cadarnhaol a phrydlon, gall cynlluniau dargyfeirio 18-25 a Menywod weithio gydag unigolion i fynd i'r afael â'r hyn sy'n eu gwneud nhw'n agored i niwed, anghenion sylfaenol, a'u helpu i beidio â throseddu a byw bywydau cadarnhaol ac iach.

Yn ystod 2018-19 a 2019-20 cynhyrchodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru fwy o incwm y pen poblogaeth nag unrhyw Gomisiynydd arall yng Nghymru a Lloegr, a hynny o grantiau yn bennaf. Yn ystod 2020-21 buon ni yn y chwartel uchaf ar gyfer creu incwm o hyd.

> Mae hyfforddiant wedi'i foderneiddio'n llwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly bydd y cyfleusterau newydd hyn yn ein galluogi i ddarparu'r hyfforddiant o ansawdd uchel hwnnw y byddai'r cyhoedd yn disgwyl i ni ei ddarparu i'n swyddogion heddlu yn y dyfodol.

# POBL DDU, ASIAIDD AC ETHNIG LEIAFRIFOL YN Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

Ar gyfer Tasglu Cydraddoldeb Hil Caerdydd, cynhaliodd yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd ddadansoddiad lefel uchel o anghymesuredd, canlyniadau a chynrychiolaeth yn y gweithlu mewn amrywiaeth eang o feysydd Cyfiawnder Troseddol. Er mwyn gwneud hyn, roedd angen cydlynu data gan amrywiaeth eang o bartneriaid cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Tynnodd y dadansoddiad hwn sylw at nifer o bryderon o ran anghymesuredd a bydd yn llywio argymhellion ar gyfer Tasglu Cydraddoldeb Hil Caerdydd ac yn sail i adolygiad ehangach ledled Cymru.

Mae gwaith wedi'i wneud hefyd i gasglu data ar wahaniaethau ar sail hil o ran y defnydd o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ifanc. Defnyddir canfyddiadau'r dadansoddiad hwn i ddatblygu cyfres o argymhellion i weithio tuag at sicrhau cyfle cyfartal i'r rheini o gefndir hil ac ethnig leiafrifol ddefnyddio gwasanaethau dargyfeirio.

Mewn partneriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, dyfarnwyd £18,000 ar gyfer Cymru Ddiogelach er mwyn treialu darpariaeth ymyriadau cynnar wedi'i theilwra i fenywod o gefndir hil neu ethnig leiafrifol sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu'n wynebu risg o ddod yn rhan ohoni. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys partneriaeth rhwng Cymru Ddiogelach, Sefydliad Henna a sefydliadau cymunedol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol eraill. Bydd y cyllid yn talu am weithiwr arbenigol rhan-amser, a fydd yn gweithio gyda Cymru Ddiogelach a'r Gwasanaeth Dull System Gyfan i gynnwys, cefnogi a diogelu menywod o gefndir hil neu ethnig leiafrifol sy'n dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol.

# CYFRIFOLDEBAU STATUDOL A LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae ein trefniadau llywodraethu wedi'u cynllunio i sicrhau atebolrwydd priodol a chefnogi arweinyddiaeth effeithiol. Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy “gorfforaeth undyn” ym mhob heddlu: y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae gan y naill a'r llall rolau gwahanol a nodir mewn statud. Rhaid i'r Comisiynydd bennu cyllideb bob blwyddyn, gan gynnwys praesept y Dreth Gyngor, a'r Comisiynydd sy'n penodi'r Prif Gwnstabl. Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldebau penodol am ddiogelwch cymunedol a lleihau trosedd, yn ogystal â chyfrifoldeb ehangach i wella'r gwaith o gyflawni Cyfiawnder Troseddol yn lleol. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am reoli, cyfeirio a chyflawni plismona gweithredol.

Bwrdd Strategol y Comisiynydd yw'r brif ffordd y gall y Comisiynydd oruchwylio perfformiad yr heddlu. Caiff ei gadeirio gan y Comisiynydd ac mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn ei fynychu. Gellir gweld cofnodion Bwrdd Strategol y Comisiynydd yma.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau statudol. Gellir gweld y penderfyniadau o bwys yma.




## ATEBOLRWYDD A CHRAFFU

Mae 'Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd' y Comisiynydd yn fodd i oruchwylio a chraffu'n fanwl ar blismona a'r gwaith o gyflawni ei Gynllun yr Heddlu a Throseddu. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cyfrannu at Fwrdd Strategol y Comisiynydd.

**Yn ystod 2021-22, cynhaliodd y Bwrdd sesiynau craffu ar y canlynol:**

- Amddiffyn a Diogelu Plant
- Rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wrth gefnogi darpariaeth diogelwch cymunedol a phlismona cymdogaeth yn Heddlu De Cymru
- Troseddau'n ymwneud â Chyllyll
- Cynnydd o ran gwaith cydraddoldeb hil a gwrth-hiliaeth Heddlu De Cymru

Gwnaeth y sesiynau alluogi'r Comisiynydd a'i dîm i graffu ar ddata, cynnydd ac arferion gwaith mewn perthynas â'r uchod, ac i ddarparu argymhellion ar gyfer newid neu wella lle bo angen. Ymhlith rhai o'r themâu allweddol a gododd yn ein hargymhellion roedd: yr angen i wella cyfleoedd cyfathrebu rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, aelodau'r gymuned a Chynghorwyr; yr angen i gydlynu gweithgarwch Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fwy ar draws ardal yr heddlu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer diogelwch cymunedol a materion cymdogaeth; anghenion hyfforddi ac ymwybyddiaeth i swyddogion; yr angen i wella'r ffordd yr eir ati i weithio mewn partneriaeth a chyfathrebu mewn perthynas ag atal troseddau â chyllyll; a'r angen am fesurau perfformiad clir er mwyn sicrhau bod modd olrhain cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil ar y Cyd.



# ADRODDIADAU AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI (HMICFRS) A'R YMATEBION IDDYNT

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ymateb i adroddiadau gan HMICFRS pan fyddant yn cynnwys argymhellion ar gyfer Prif Gwnstabliaid. Anfonir yr ymatebion at yr Ysgrifennydd Cartref a HMICFRS er mwyn amlinellu barn y Comisiynydd am yr argymhellion a sut y gellir eu goruchwylio. Yn ystod 2021-22 ymatebodd y Comisiynydd i wyth adroddiad. Mae'r adroddiadau a'r ymatebion ar gael yma.

Wrth wraidd rhaglen arolygu HMICFRS mae asesiad PEEL, sef adolygiad blynyddol o blismona heddluoedd yng Nghymru a Lloegr lle asesir Effeithiolrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb.Ceir dyfarniad rhagorol, da, angen gwella neu annigonol ar gyfer y categorïau hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygiad, gwaith dadansoddi a barn broffesiynol Arolygwyr Ei Mawrhydi yn ystod y flwyddyn. Mae pob categori yn cynnwys cwestiynau sy'n canolbwyntio ar feysydd craidd gwaith yr heddlu a cheir dyfarniad yn eu cylch. Mae gwybodaeth am yr asesiad PEEL diweddaraf ar gyfer Heddlu De Cymru ar gael yma.

## Cafodd Heddlu De Cymru ei arolygu yn yr ail gam a chanfwyd y canynol:

Mae'r heddlu yn effeithiol wrth leihau troseddu a chadw pobl yn ddiogel i raddau **da**.

Mae'r heddlu'n gweithredu'n effeithlon ac yn gynaliadwy i raddau **da**.

Mae'r heddlu'n trin y cyhoedd a'i weithlu'n gyfreithlon i raddau **da**.

## GRŴP ATEBOLRWYDD A DILYSRWYDD PLISMONA (PALG)

Mae Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu y Comisiynydd yn cyfarfod bob chwarter. Mae'r grŵp yn cynnwys sefydliadau partner ac aelodau annibynnol sy'n rhannu barn am ymarfer a pherfformiad Heddlu De Cymru er mwyn helpu'r Comisiynydd i wneud ei waith goruchwylio a chraffu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd un o aelodau cymunedol annibynnol PALG ei benodi'n Gadeirydd y Grŵp. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu annibyniaeth ac effeithiolrwydd y grŵp ymhellach.

**Yn ystod 2021-22, gwnaeth y grŵp drafod amrywiaeth o bynciau a rhannu barn amdanynt, gan gynnwys:**

- Tensiynau cymunedol a chydlyniant cymunedol
- Troseddau casineb ar-lein
- Cynigion gweithredu cadarnhaol ar gyfer sicrhau gweithlu cynrychioliadol yn Heddlu De Cymru
- Ymateb yr heddlu i achosion o gamfanteisio'n rhywiol a amheuir
- Ymateb yr heddlu i ddiogelwch menywod a merched a mynd i'r afael â chamymddwyn rhywiol mewnol (yn dilyn achosion cenedlaethol)
- Stopio a Chwilio
- Perthnasoedd rhwng y gymuned a'r heddlu ac atebolrwydd yr heddlu

Ceir rhagor o fanylion am Grŵp Atebolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu yma.

## PANEL CRAFFU AR GAMERÂU FIDEO A WISGIR AR Y CORFF

Yn 2021, sefydlodd Tîm y Comisiynydd Banel Craffu ar Gamerâu Fideo a Wisgir ar y Corff newydd.
Mae hyn yn galluogi aelodau annibynnol o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu y Comisiynydd ac aelodau o Grŵp Cynghori Annibynnol yr heddlu i wylio deunydd fideo o achosion o stopio a chwilio a defnyddio grym. Gall y Panel Craffu wneud sylwadau ar y deunydd fideo y byddant yn eu gwylio a mynegi barn ynghylch a oedd yr achos o stopio a chwilio neu ddefnyddio grym yn ddilys,



yn deg ac a gafodd ei gynnal mewn ffordd barchus, yn eu barn nhw. Defnyddir adborth gan y panel i lywio ymarfer yr heddlu a chaiff ei rannu ag uwch-arweinwyr yr heddlu.

## GWEITHLU SY'N ADLEWYRCHU EIN CYMUNEDAU

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n ddiwyd gyda'r heddlu i wneud hyd yn oed mwy i gynyddu cynrychiolaeth yr heddlu. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno mesurau gweithredu cadarnhaol newydd ac arloesol ar y cyd i gynyddu ceisiadau i'r heddlu gan leiafrifoedd ethnig, ac i gefnogi cyfraddau cadw a chynnydd yn y gweithle.

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Comisiynydd wedi parhau i oruchwylio a chynorthwyo i ddatblygu gweithlu mwy cynrychioliadol yn Heddlu De Cymru. Mae blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu i gynyddu nifer y bobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws yr heddlu ac i wella cynrychiolaeth swyddogion benywaidd ar draws y rhengoedd. Dechreuodd y gwaith hwn yn 2015 pan gynhaliodd y Comisiynydd adolygiadau i weld sut y gallai Heddlu De Cymru wella cynrychiolaeth.

Ers hynny, mae'r Comisiynydd a'i dîm wedi buddsoddi mewn cynlluniau gweithredu ar y cyd i wneud gwelliannau ac mae'r cynnydd wedi bod yn sylweddol. Ar ddechrau 2015, dim ond 1.9% o'n swyddogion oedd o gefndir ethnig lleiafrifol ac roedd hyn wedi codi i 3.5% ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Gwellodd cynrychiolaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o leiafrifoedd ethnig o 2.2% yn 2015 i 3.6% erbyn 2022, a chynyddodd cynrychiolaeth staff yr heddlu o leiafrifoedd ethnig o 1.1% yn 2015 i 1.7% yn 2022. O ran cynrychiolaeth menywod, yn 2015, roedd cyfanswm o 28% o'n swyddogion yn fenywod. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, roedd hyn wedi codi i 34.4%.

Cynhaliodd tîm y Comisiynydd adolygiad craffu manwl ar ddechrau 2022 i edrych ar gynnydd yr heddlu ar gydraddoldeb hil a gwrth-hiliaeth. Arweiniodd y gwaith hwn at benderfyniad i wneud gwaith penodol pellach ar oruchwylio'r gwaith gweithredu cadarnhaol sy'n digwydd ar draws Heddlu De Cymru, gan fod yr angen i gynyddu cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiynydd sydd eisiau gweld mwy o gynnydd o hyd. Bydd hyn yn digwydd yn ystod hydref 2022.






## CYNLLUN YMWELWYR ANNIBYNNOL Â DALFEYDD A CHYNLLUN AR GYFER LLES ANIFEILIAID

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfrifoldeb statudol i redeg Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gwirfoddol. Mae hyn yn golygu bod grŵp o wirfoddolwyr yn cynnal ymweliadau dirybudd â phobl yn y ddalfa yn ardal yr heddlu, er mwyn cadw llygad ar eu lles a'r amodau y'u cedwir ynddynt. Tynnir sylw at unrhyw faterion a nodir yn ystod ymweliadau a chânt eu datrys trwy sgyrsiau uniongyrchol gydag Arolygwyr y Ddalfa yn ystod cyfarfodydd panel pwrpasol. Cânt eu monitro wedyn mewn ymweliadau yn y dyfodol.

Yn ystod 2021-22, gwnaethpwyd cyfanswm o 58 o ymweliadau dirybudd â dalfeydd ledled De Cymru. Ymhlith rhai o’r materion a godwyd yn ystod ymweliadau ac o ganlyniad iddynt roedd deunydd crefyddol nad oedd yn cael ei storio’n gywir a stoc isel o fwyd a diod. O ganlyniad, mae stociau bwyd yn cael eu monitro’n agosach ac mae matiau gweddi tafladwy wedi cael eu treialu.

Yn ystod yr un cyfnod, gwnaeth y gwirfoddolwyr 8 ymweliad hefyd â’r adran Cŵn a Cheffylau ar safle Waterton ym Mhen-y-bont ar Ogwr i wirio llesiant cŵn a cheffylau’r heddlu. Ni chanfu’r gwirfoddolwyr unrhyw broblemau gyda’r ffordd yr oedd cŵn a cheffylau’r heddlu yn cael eu trin yn ystod y flwyddyn.

## HYRWYDDO CYDRADDOLDEB HIL A MYND I’R AFAEL Â GWAHANIAETHAU AR SAIL HIL

Yn ystod 2021-22, parhaodd y Comisiynydd i roi mwy o bwyslais ar fynd i’r afael â gwahaniaethau ar sail hil ym maes plismona a Chyfiawnder Troseddol, yn dilyn digwyddiadau rhyngwladol a chenedlaethol a oedd yn tynnu sylw at yr angen am newid. Yn 2020, ar y cyd â’r Prif Gwnstabl, datblygwyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil ar y Cyd yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a sefydliadau partner sy’n hyrwyddo cydraddoldeb hil. Mae’r Cynllun yn cynnwys nifer o flaenoriaethau y bydd Heddlu De Cymru yn gweithio tuag atynt er mwyn gwella cydraddoldeb hil a lleihau anghymesuredd.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i ddwyn yr heddlu i gyfrif am gynnydd yn erbyn y Cynllun ac, ar ddechrau 2022, cynhaliodd ei dîm sesiwn graffu yn canolbwyntio ar hyn. Arweiniodd hyn at yr argymhelliad y dylid datblygu canlyniadau mesuradwy clir yn erbyn yr ymrwymiadau yn y Cynllun fel ein bod mewn gwell sefyllfa i ddangos newid i'r cyhoedd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Emma Wools, yn ei rôl fel Cyd-arweinydd Cymru ar Gydraddoldeb Hil ym maes Plismona, wedi arwain ar y cyd ar lawer o fentrau Cyfiawnder Troseddol i weithio tuag at ddull gwrth-hiliaeth ar draws Cyfiawnder Troseddol. O ganlyniad, mae pob asiantaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru wedi ffurfio Tasglu Hil Strategol nawr o dan gadeiryddiaeth Emma Wools. Bydd y Tasglu hwn yn



gyfrifol am gynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, a fydd yn cael ei lansio yn 2022. Mae pob asiantaeth, gan gynnwys Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, wedi gweithio gyda'i gilydd ar ddatblygu'r Cynllun hwn, ac wedi ymrwymo i gydweithio i fynd i'r afael â'r anghymesuredd hiliol systemig a pharhaus sy'n bodoli ar draws Cyfiawnder Troseddol.

## PANEL YR HEDDLU A THROSEDDU

Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am oruchwylio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a chraffu ar ei benderfyniadau. Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Panel ar gael yma.

## Y CYD-BWYLLGOR ARCHWILIO

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi penodi Cyd-bwyllgor Archwilio annibynnol sy'n rhoi sicrwydd i wella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn trefniadau llywodraethu.

**Mae'r Pwyllgor yn:**

- Rhoi sicrwydd annibynnol o ran digonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheolaeth cysylltiedig
- Craffu ar berfformiad ariannol yn annibynnol
- Goruchwylio'r fframwaith adrodd ariannol.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gael yma.

## ARCHWILIO MEWNOL

TIAA, sef cwmni annibynnol, sy'n darparu gwasanaethau archwilio mewnol. Mae'r archwilwyr mewnol yn cynnal nifer o adolygiadau yn seiliedig ar gynllun archwilio y cytunwyd arno ac yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn craffu ar y Cynllun Archwilio Mewnol cyn cytuno arno. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn derbyn ac yn adolygu pob adroddiad archwilio mewnol.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd TIAA archwiliad o grantiau a threfniadau comisiynu'r Comisiynydd. Dyfarnwyd 'sicrwydd sylweddol' i'r archwiliad, sef y categori uchaf, ac mae'n ailadrodd y dyfarniad tebyg a roddwyd pan archwiliwyd yr ardal ddiwethaf yn 2020.

## ARCHWILIO ALLANOL

Archwilio Cymru yw archwilwyr allanol penodedig y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Bob blwyddyn, mae Archwilio Cymru yn gwneud sylwadau ar yr agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol, gan gynnwys cyfreithlondeb trafodiadau ariannol, systemau statws ariannol, systemau rheolaeth ariannol fewnol a safonau ymddygiad ariannol, twyll a llygredd. Mae gan Archwilio Cymru ddyletswydd statudol i asesu'r trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

Rhoddodd yr Archwilydd

Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon 2020-21 ac ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion ar gyfer gwelliannau yn yr amgylchedd rheoli ariannol.

# ANSAWDD, SAFONAU A CHYDYMFFURFIAETH

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd y tîm Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth fwy na 1,500 o gysylltiadau trwy lythyrau, negeseuon e-bost a negeseuon llais, yn cynnwys cwynion, ceisiadau am wybodaeth, cwestiynau a sylwadau am blismona a rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r materion a godwyd wedi bod yn amrywiol iawn – sylwadau ynghylch anfodlonrwydd â'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu a gafwyd fwyaf, gyda chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ail agos iawn.

Trwy weithio mewn partneriaeth â swyddfa'r Prif Gwnstabl, mae gohebiaeth yn ymwneud â phlismona gweithredol wedi'i dwyn i sylw'r heddlu heb oedi, gan sicrhau bod swyddogion lleol yn gallu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae ein gwaith hefyd wedi sicrhau bod yr heddlu wedi cael gwybod am faterion a phryderon sy'n dod i'r amlwg a godwyd gan y cyhoedd fel bod camau priodol yn gallu cael eu cymryd a, lle y bo'n berthnasol, mae diweddariadau a sicrwydd wedi'u rhoi.

Mae gohebiaeth y mae'n ymddangos ei bod yn gŵyn yn erbyn unrhyw swyddog neu aelod o staff Heddlu De Cymru islaw rheng Prif Gwnstabl wedi'i throsglwyddo i'r Adran Safonau Proffesiynol i'w hasesu a'i thrin yn y lle cyntaf. Unig gylch gwaith y Comisiynydd o ran ymchwilio i gwynion yw ymchwilio i gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl. Mae gwybodaeth am wneud cwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl ar gael yma. Yn ystod y cyfnod 2021-22, ystyriwyd saith cwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl, ac ni chadarnhawyd yr un ohonynt.

Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd statudol i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am broses leol effeithlon ac effeithiol o ymdrin â chwynion. Mae craffu ar y system gwynion leol gan y tîm Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth wedi cynnwys cael adroddiadau perfformiad a samplu ffeiliau cwynion ar hap. Mae samplu ffeiliau cwynion caeedig ar hap wedi caniatáu i'n swyddfa wirio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar System Gwynion yr Heddlu. Lle mae meysydd i'w gwella wedi'u nodi, mae argymhellion wedi'u gwneud i'r Adran Safonau Proffesiynol.

Ceir trosolwg o drin cwynion a data ar gwynion ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r trosolwg yn darparu dolen i wybodaeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu sydd ar ffurf Bwletin Gwybodaeth Cwynion yr Heddlu ar gyfer Heddlu De Cymru. Rydym yn gyfrifol am dderbyn adroddiadau gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a'r Adran Safonau Proffesiynol pan fydd ymchwiliad i gŵyn neu fater yn ymwneud ag ymddygiad yn cymryd dros 12 mis, a gallwn ddwyn y ddwy ochr i gyfrif am amseroldeb mewn perthynas â'r rhain.

Mae'r tîm Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth hefyd wedi goruchwylio a chraffu ar weithgareddau'r heddlu trwy ei gynrychiolaeth a'i ymgysylltiad mewn amrywiaeth o gyfarfodydd ar y cyd â'r heddlu gan gynnwys: y Pwyllgor Moeseg Mewnol, y Pwyllgor Moeseg Annibynnol, y Grŵp Rhyddid Gwybodaeth, y Fforwm Strategol ar Wersi a Ddysgwyd, y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd, y Grŵp Hyder a Chyfreithlondeb a'r Panel Apeliadau Fetio.

Ym mis Chwefror 2020, yn dilyn newid i'r gyfraith, cymerodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru gyfrifoldeb am ymdrin ag adolygiadau (apeliadau) o gwynion lefel isel a wnaed gan achwynwyr sydd wedi mynd trwy'r broses o wneud cwyn drwy'r Adran Safonau Proffesiynol ac nad ydynt yn hapus â chanlyniad eu cwyn. Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, ymdriniodd y tîm Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth â 121 o geisiadau i'w hadolygu. Cwblhaodd y tîm 110 o adolygiadau sylweddol (y canfuwyd bod 11 ohonynt yn annilys). Cafodd 17 ohonynt eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol ac rydym wedi dwyn yr heddlu i gyfrif trwy olrhain cydymffurfiaeth â'n hargymhellion. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses adolygu statudol yma.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn destun craffu gan y Panel Heddlu a Throseddu. Rôl y Panel yw craffu ar berfformiad y Comisiynydd a sicrhau tryloywder. Mae hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion yn erbyn y Comisiynydd. Ni chadarnhawyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod 2021-22. Ceir rhagor o wybodaeth am rôl y Panel Heddlu a Throseddu wrth graffu ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i ddwyn i gyfrif yma.

Yn ystod 2021-22, ymatebodd y tîm Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth i 17 o geisiadau am wybodaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac ymdriniodd ag un adolygiad mewnol. Cyhoeddir log datgeliadau sy'n nodi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'n hymatebion iddynt ar ein gwefan, ynghyd â Chynllun Cyhoeddi.

Mae staff wedi cael hyfforddiant gorfodol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ac arferion da o ran y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Ceir gwybodaeth am y mathau o ddata a ddelir gan swyddfa'r Comisiynydd a sut i wneud cais gwrthrych am wybodaeth ar ein gwefan.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cynnwys ein gwefan wedi bod yn destun adolygiad. Mae hon yn broses barhaus wrth i ni ymdrechu i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol i gyhoeddi gwybodaeth allweddol, gan sicrhau bod gwybodaeth am waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn glir ac yn hygyrch i bawb.

Ym mis Chwefror 2021 (am y drydedd flwyddyn yn olynol), dyfarnwyd Marc Ansawdd 'Agored a Thryloyw' CoPaCC 2020 i ni am y wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Mae'r dyfarniad yn dangos ein hymrwymiad i gyhoeddi gwybodaeth am waith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n glir ac yn hygyrch i aelodau'r cyhoedd. Ni chynhaliwyd proses CoPaCC yn ystod 2021-22 a bydd yr asesiad nesaf yn digwydd yn 2022-23.

# CYLLID A THRYLOYWDER

Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, mae'r Comisiynydd yn cynhyrchu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) sy'n nodi ei gynlluniau gwariant a'i gynnig praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cefndir economaidd, penderfyniadau'r Swyddfa Gartref o ran grantiau'r heddlu, refeniw a chynlluniau gwariant cyfalaf, amcangyfrifon o'r gweithlu a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Cymeradwywyd cyllideb o £328 miliwn ar gyfer 2021-22.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, caiff y Datganiad o Gyfrifon ei lunio sy'n nodi perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth. Archwilio Cymru sy'n archwilio'r Datganiad o Gyfrifon.




Ceir rhagor o fanylion am faterion cyllid, gan gynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Datganiad o Gyfrifon, ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## TRYLOYWDER

Mae'n ofynnol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gyhoeddi gwybodaeth benodol er mwyn galluogi'r cyhoedd i ddwyn y cyhoedd i gyfrif. Mae'r Comisiynydd yn bodloni'r gofynion hyn ac mae'r wybodaeth ar gael yma.

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

**www.southwalescommissioner.org.uk**

---

I gael rhagor o wybodaeth am eich Comisiynydd, dilynwch ni:

@commissionersw

Neu cysylltwch â ni drwy:

**01656 869 366**

**commissioner@south-wales.police.uk**


Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru,
Pencadlys yr Heddlu, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3SU


---

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg

We are a Living Wage Employer

INVESTORS IN PEOPLE

# KeepingSouthWalesSafe